



Llywodraeth Cymru
Papur Gwyn

Papur Gwyn ar Fil Aer Glân (Cymru)

Gwneud Cymru yn lle gwell ac iachach i fyw ynddo

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2021
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn mis Ebrill 2021

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad yn gosod allan y darpariaethau posibl ar gyfer Deddf Aer Glân (Cymru). Nod y cynigion yw lleihau llygredd aer a'i effeithiau. Mae'r cynigion yn cynnwys mesurau sydd i'w gweithredu'n uniongyrchol trwy ddeddfwriaeth sylfaenol ac, ar yr un amser, sydd yn sefydlu fframweithiau i ddylunio a gweithredu deddfwriaeth eilradd.

Sut i ymateb

Plis defnyddiwch y ffurflen ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad ar ddiwedd y ddogfen hon i gyfleu eich barn. Medrwch wneud hyn drwy ein cyfeiriad e-bost neu cyfeiriad ein swyddfa isod. Please use the c

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Rhowch unrhyw gyfeiriadau at y rhyngwyd, dogfennau neu wybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol i ymgynghoreion e.e. cyfeiriad gwe yr ymgynghoriad, atodiad manwl i'r ymgynghoriad

Manylion cyswllt

Rhagor o wybodaeth:

Enw Generig/blwch negeseuon e-bost
Cyfeiriad:

Tîm Ansawdd yr Aer
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: AirQualityPolicy@gov.wales

ffôn: 03000 256308

Mae'r ddogfen hefyd ar gael yn Saesneg yn:

<https://gov.wales/white-paper-clean-air-wales-bill>

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgwymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd unrhyw ddata amdanoch a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ

e-
bost:Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru
u

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Rhagair y Gweinidog

Mae ansawdd aer yn effeithio ar bob un ohonom, ym mhob agwedd o'n bywydau. Ansawdd aer gwael yw'r risg amgylcheddol fwyaf i iechyd y cyhoedd. Mae'n effeithio hefyd ar ein hamgylchedd ehangach a gall gael effaith sylweddol ar y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Rhaid i ni ddarparu'r adnoddau sydd eu hangen ar bob rhan o gymdeithas i fynd i'r afael â llygredd aer ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Rydym yn gweithio gyda phob cwr o fyd diwydiant, busnes a phobl Cymru i ddeall a mynd i'r afael yn well ag achosion ac effeithiau ansawdd aer gwael. Mae COVID-19 wedi cyflwyno darlun newidiol o ansawdd aer. Mae hyn wedi cefnogi ein dealltwriaeth ac wedi pwysleisio'r angen i wneud newidiadau angenrheidiol i'n ffordd o fyw er mwyn lleihau allyriadau a gwella'r aer yr ydym yn ei anadlu. Er na wyddom faint llawn yr effaith a gafodd COVID-19 ar ansawdd aer, addasodd llawer ohonom i ffyrdd o fyw llai llygrol, gan gynnwys gyrru llai a defnyddio dulliau teithio llesol yn amlach.

Mae ein Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach yn nodi ystod eang o gamau gweithredu ar draws y Llywodraeth a'r sectorau i wella ansawdd aer a lleihau effeithiau llygredd aer ar iechyd pobl, bioamrywiaeth, yr amgylchedd naturiol a'n heconomi. Un cam gweithredu allweddol o fewn y cynllun yw datblygu Deddf Aer Glân i Gymru i greu fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddiol addas ar gyfer rheoli ansawdd aer.

Mae'r Papur Gwyn hwn yn nodi amryw o gynigion deddfwriaethol posibl i'w cynnwys mewn Bil Aer Glân. Diben y ddogfen hon yw nodi'r prif resymau pam y credwn fod angen gwella deddfwriaeth ansawdd aer a sut yr ydym yn bwriadu ei newid. Mae'n amlygu sut yr ydym yn bwriadu galluogi targedau ansawdd aer uchelgeisiol, fframwaith rheoleiddio mwy cadarn i gefnogi hyn a mesurau i sicrhau bod pob rhan o gymdeithas yn cyfrannu at leihau llygredd aer.

Mae eich cyfranogiad a'ch mewnbwn yn bwysig iawn wrth i ni weithio gyda'n gilydd i sefydlu fframwaith rheoli ansawdd aer sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau i bawb. Edrychwn ymlaen at glywed eich barn.

Lesley Griffiths
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Cyflwyniad

Mae'r Papur Gwyn hwn ar Fil Aer Glân (Cymru) ('y Bil') yn cefnogi ein nod o wella ansawdd aer a lleihau effeithiau llygredd aer ar iechyd pobl, bioamrywiaeth, yr amgylchedd naturiol a'n heconomi. Rydym yn bwriadu i'r Bil fod yn fodd o gyflawni ymrwymadau a nodwyd yn y Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach.

Mae'r Papur Gwyn hwn yn cyflwyno cynigion ar gyfer y Bil cyn drafftio deddfwriaeth. Diben y ddogfen hon yw darparu'r cyd-destun a'r rhesymeg dros y Bil drwy nodi pam mae angen i ni newid ein deddfwriaeth ansawdd aer bresennol a'r hyn y bwriedir i'r Bil ei gyflawni. Rydym wedi amlinellu ein gofynion deddfwriaethol arfaethedig ac wedi esbonio sut y bydd y cynigion unigol yn cydweithio fel fframwaith rheoli ansawdd aer deddfwriaethol a rheoleiddiol cydlynol i Gymru.

Cefnogir y ddogfen hon gan Aseiad Effaith Rheoleiddiol, sy'n rhoi dadansoddiad cryno o'r costau a'r manteision ar gyfer cynigion y Bil. Mae aseidiadau manylach ar y gweill i lywio cynigion penodol. Rydym yn bwriadu cyflwyno'r Bil yn ystod tymor nesaf y Senedd.

Yr Angen am Newid

Llygredd aer yw presenoldeb halogyddion yn yr awyrgylch, megis nwyon a gronynnau, mewn digon o faint neu am gyfnod digonol i fod yn niweidiol i iechyd pobl, planhigion neu anifeiliaid, neu i eiddo. Gall yr allyriadau hyn fod yn rhai a achoswyd gan weithgareddau dyn neu gallant ddigwydd yn naturiol. Er enghraifft, daw allyriadau o ronynnau naturiol o'r môr, o bridd ac o blanhigion tra mae gronynnau o waith dyn yn medru dod o losgi tanwyddau solet fel glo.

Mae Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) wedi disgrifio llygredd aer fel y risg unigol fwyaf yn y byd i iechyd yr amgylchedd¹. Yn ogystal, gall ansawdd aer gwael gael effaith niweidiol ar fywyd gwyllt trwy newidiadau eang yn nosbarthiad rhywogaethau ac ansawdd cynefinoedd yn y DU ac mae'n fygwth i statws cadwraethol llawer o'r cynefinoedd a restrir yn y Gyfarwydeb Cynefinoedd. Mae hefyd yn cyfrannu at asideiddio pridd a dŵr wyneb ac ewtroffigedd² mewn cynefinoedd sensitif, ac mae'n niweidio llystyfiant trwy gysylltiad ag osôn. Ceir rhagor o fanylion am lygryddion aer a'u heffeithiau yn Atodiad 3.

Mae rheoli allyriadau wedi arwain at welliannau mewn ansawdd aer yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Er hyn mae problemau'n parhau. Mae costau cymdeithasol difrifol ynghlwm wrth lygredd aer, drwy'r effaith a gaiff ar iechyd pobl o oedran gweithio – a thrwy hynny, ar eu cynhyrchiant – gan arwain at effeithiau niweidiol posibl ar dwf economaidd.

Er bod ein haer yn lanach yn gyffredinol nag ar unrhyw adeg ers y chwyldro diwydiannol, mae dod i gysylltiad â'r lefelau is o lygredd yn yr atmosffer heddiw yn dal i fod yn un o'r heriau mwyaf i iechyd y cyhoedd a wynebier heddiw, gan fyrhau bywyd ac andwyo ansawdd bywyd llawer o bobl. Llygredd aer yw'r prif ffactor amgylcheddol sy'n cyfrannu at farwolaeth gynnar yn yr Undeb Ewropeaidd (amcangyfrifir ei fod yn cyfrannu

¹ Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) – https://www.who.int/phe/health_topics/outdoorair/databases/en/

² Gormod o faethynnau mewn llyn neu gorff dŵr arall, yn aml oherwydd dŵr ffo oddi ar y tir, sy'n achosi tyfiant trwchus o blanhigion.

at fwy na 400,000 o farwolaethau cynnar y flwyddyn). Yng Nghymru, amcangyfrifir bod y baich marwolaethau hirdymor y gellir ei briodoli i gysylltiad â llygredd aer o fewn ystod effaith gyfwerth â rhwng 1,000 a 1,400 o farwolaethau. Mae'n achosi clefydau cronig ac aciwt megis asthma, problemau cardiofasgwlaidd a chanser yr ysgyfaint.

Mae llygredd aer yn broblem leol, ranbarthol a rhyngwladol a achosir gan allyriadau llygryddion sydd, naill ai'n uniongyrchol neu drwy adweithiau cemegol yn yr atmosffer, yn arwain at effeithiau negyddol ar iechyd pobl, ecosystemau a'r economi. Er bod ansawdd aer yng Nghymru yn dda ar y cyfan, mae angen gwneud mwy i leihau effeithiau niweidiol llygredd aer mewn ardaloedd lle mae'n parhau i fod yn broblem.

Bydd y cynigion yn y Papur Gwyn hwn yn mynd i'r afael â ffynonellau llygredd aer adnabyddus. Mae'r rhain yn cynnwys trafndiaeth, diwydiant (yn cynnwys amaethyddiaeth) ac allyriadau o gartrefi a busnesau. Byddwn yn canolbwyntio'n arbennig ar ddiogelu unigolion agored i niwed a chynefinoedd sensitif rhag effeithiau niweidiol llygredd aer.

Er bod llawer o'r fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddiol presennol ar gyfer ansawdd aer yn gweithio'n dda, mae yna sawl maes y bwriadwn ddiweddarau'r gyfraith bresennol ar eu cyfer i adlewyrchu ein huchelgais a nodir yn y Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach. Yn benodol, byddwn yn sicrhau bod ein deddfwriaeth yn cefnogi ein nodau llesiant a'n hegwyddor datblygu cynaliadwy. Drwy'r cynigion hyn, rydym wedi ceisio gwneud cysylltiadau pwysig rhwng y camau sydd eu hangen i liniaru'r newid yn yr hinsawdd a llygredd aer. Ceir rhagor o fanylion am y fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddiol presennol ar gyfer ansawdd aer yn Atodiad 5.

COVID-19


Mae COVID-19 wedi amharu llawer ar ein ffordd o fyw. Mae'r newidiadau digynsail yn ein patrymau byw a gweithio yn ystod y pandemig wedi arwain at ddarlun amrywiol o ran llygredd aer yng Nghymru ar hyn o bryd ac, o bosibl, ar gyfer y dyfodol. Er enghraifft, newidiodd y cyfyngiadau ar deithio yr allyriadau trafndiaeth ffyrdd a'r lleoliadau lle mae pobl yn agored i lygredd.

Rydym yn gweithio gyda rheoleiddwyr amgylcheddol, Llywodraeth y DU, Awdurdodau Lleol, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac ymgynghorwyr arbenigol i ddatblygu ein dealltwriaeth o effeithiau'r pandemig ar ansawdd aer. Mae canlyniadau'r gwaith ymchwil hwn yw llywio sut yr ydym yn datblygu ac yn cyflawni deddfwriaeth ansawdd aer ar gyfer y dyfodol.

Y Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach

Cyhoeddwyd y cynllun Aer Glân ym mis Awst 2020. Mae'n pennu llwybr 10 mlynedd ar gyfer sicrhau aer glanach. Rydym wedi llunio'r Cynllun ar sail pedair thema graidd:

- **Pobl: Diogelu iechyd a llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol**
- **Amgylchedd: Cymryd camau i gefnogi ein hamgylchedd naturiol, ein hecosystemau a'n bioamrywiaeth**
- **Ffyniant: Gweithio gyda'r diwydiant i leihau allyriadau, gan gefnogi Cymru fwy llewyrchus**
- **Lle: Creu mannau cynaliadwy trwy drafnidiaeth, seilwaith a chynllunio gwell**



Caiff yr amserlenni ar gyfer cyflawni'r camau gweithredu eu gosod o fewn tri o gyfnodau'r Senedd: 2020 i 2021, 2021-26 a 2026-2031.

Un o ymrwymiadau allweddol y Cynllun yw datblygu Deddf Aer Glân i Gymru drwy adeiladu ar ddeddfwriaeth bresennol, gan ganolbwyntio ar gyflawni gwelliannau i ansawdd aer drwy fframwaith rheoli ansawdd aer deddfwriaethol a rheoleiddiol newydd.

Crynodeb Gweithredol

Pam mae angen Bil Aer Glân (Cymru) ?

Nod y Bil fydd gweithredu amryw o gamau gweithredu o dan y Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach. Rydym yn datblygu cynigion ar gyfer Bil i wella'r ddeddfwriaeth bresennol ac yn cyflwyno deddfwriaeth newydd er mwyn sicrhau gwelliannau mewn ansawdd aer.

Gall ansawdd aer gwael gael effaith andwyol ar iechyd trwy waethygu problemau iechyd sylfaenol neu achosi problemau iechyd newydd. Mae grwpiau agored i niwed yn arbennig o agored i lygredd aer ac rydym yn cydnabod bod materion unigryw yn ymwneud â phlant yn dod i gysylltiad â llygryddion aer.

Drwy'r Bil, rydym yn ceisio sicrhau Cymru iachach a mwy cydnerth. Bydd mesurau i osod targedau ansawdd aer sy'n gyfreithiol rwymol a rheoli allyriadau yn sbarduno newidiadau mewn gwelliannau i reoli ansawdd aer a'r aer rydym yn ei anadlu yn ein cymunedau. Mae'r cynigion yn y Bil wedi'u datblygu i ddarparu manteision uniongyrchol i iechyd y cyhoedd, cynefinoedd a bioamrywiaeth.

Gosodir y ddogfen hon yng nghyd-destun egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n gosod dyletswydd ar bob corff cyhoeddus yng Nghymru i ystyried pa effaith y gallai eu gweithredoedd ei chael yn yr hirdymor, a sut y byddant yn lliniaru problemau tlodi, anghydraddoldebau iechyd a'r newid yn yr hinsawdd.

Ffyniant i Bawb

Mae'r Papur Gwyn hwn yn helpu i gyflawni amcanion sy'n ymwneud ag aer glân yn ein strategaeth genedlaethol, Ffyniant i Bawb, sef:

- Sbarduno twf cynaliadwy a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd; a
- Chreu cymunedau iachach ac amgylcheddau gwell.

Ni ellir gorbwysleisio cyfraniad yr amgylchedd at iechyd da – yn feddyliol ac yn gorfforol. Mae ansawdd aer a seinwedd, tai da, mynediad i fannau gwyrdd a chynlluniau effeithlonrwydd ynni yn cyfrannu at greu'r amodau cywir ar gyfer gwell iechyd, llesiant a mwy o weithgarwch corfforol.

Mae'r cynigion yn nodi sut y byddwn yn cefnogi cyflawni'r ymrwymiad penodol yn Ffyniant i Bawb i leihau allyriadau a sicrhau gwelliannau hanfodol mewn ansawdd aer drwy fesurau cynllunio, rheoleiddio a chyfathrebu iechyd.

Y Papur Gwyn yw'r cam cyntaf allweddol o ran cyflawni ymrwymiad Maniffesto Arweinyddiaeth y Prif Weinidog i ddatblygu Cynllun Aer Glân i Gymru, gan sicrhau y gall ein plant fynd i'r ysgol, bod yn egnïol a chwarae yn yr awyr agored yn ddiogel heb ofni problemau anadlu, megis asthma, oherwydd llygredd aer . Nod y cynigion yw lleihau baich ansawdd aer gwael ar iechyd pobl, ein heconomi, ein bioamrywiaeth a'n hamgylchedd naturiol. Bydd y Ddeddf hefyd yn cefnogi camau gweithredu ehangach i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a chefnogi twf amgylcheddol.

Er mwyn sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol mewn ansawdd aer, mae gan bob rhan o gymdeithas gyfraniad i'w wneud, trwy newidiadau mewn ymddygiad yn y cartref, wrth deithio, yn y gwaith ac wrth hamdden. Mae'r effeithiau a'r manteision yn disgyn ar draws pob sector. Nod y Ddeddf fydd lleihau baich ansawdd aer gwael ar iechyd pobl, ein heconomi, ein bioamrywiaeth a'n hamgylchedd naturiol. Byddwn yn gwella gallu llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol i fynd i'r afael ag ansawdd aer gwael. Mae yna ddwy o thema yn y Bil. Y cyntaf yw cyflwyno dull strategol i wella ansawdd aer yng Nghymru i gefnogi Cymru iachach. Yr ail thema yw fframwaith deddfwriaethol glir ac effeithiol ar gyfer rheoli ansawdd aer. Mae'r cynigion o dan y themâu yma isod: :

Pennu ein dull strategol o wella targedau ansawdd aer i gefnogi Cymru iachach

- gofyniad i adolygu Cynllun neu Strategaeth Aer Glân bob 5 mlynedd o leiaf
- Pwerau i osod targedau ansawdd aer, gan gynnwys ar gyfer PM_{2.5};

Fframwaith deddfwriaethol clir ac effeithiol ar gyfer rheoli ansawdd aer i ddarparu

- Cyfundrefn Rheoli Ansawdd Aer Lleol (LAQM) wedi'i hegluro a'i gwella
- pwerau cyfunol i roi Parthau Aer Glân neu Barthau Allyriadau Isel ar waith;
- cryfhau pwerau i fynd i'r afael â'r arfer o segura llonydd;

- gwella pwerau sy'n bodoli eisoes ar gyfer rheoli mwg sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael â llygredd aer o losgi domestig (PM2.5);
- Dyletswydd ar gyrff ar draws y sectorau i gadw at ganllawiau sy'n annog gweithredu ar lygredd aer.

Yn gyffredinol, bydd y cynigion ar gyfer y cynnig deddfwriaethol yn y Papur Gwyn hwn yn lleihau llygredd aer a'i effeithiau. Maent yn gosod pwrpas a chyfeiriad clir ar gyfer y ffordd rydym yn ceisio gweithredu newid er mwyn cyflawni'r ymrwymadau hyn. Yn dibynnu ar y llwybr penodol a ddewiswyd i gyflawni ein huchelgeisiau o ran lleihau allyriadau erbyn 2030 a gostwng amlygiad y cyhoedd, amcangyfrifir y bydd y camau gweithredu hyn, gan gynnwys drwy gamau gweithredu sy'n gysylltiedig â chynigion yn y Papur Gwyn hwn, yn costio tua £10 miliwn y flwyddyn. Amcangyfrifir bod y gostyngiadau cysylltiedig mewn amlygiad cyffredinol i lygredd aer yn arwain at fanteision iechyd ariannol o tua £100 miliwn y flwyddyn. Mae rhagor o fanylion yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol. Bydd costio ar gyfer y cynigion penodol yn y Papur Gwyn yn cael ei ddatblygu a'i fireinio pan fydd gennym ddarpariaethau terfynol ar gyfer y ddeddfwriaeth.

Mae'r cynigion yn cynnwys mesurau sy'n cael eu gweithredu'n uniongyrchol drwy ddeddfwriaeth sylfaenol ac, ar yr un pryd, sefydlu fframweithiau i ddylunio a gweithredu is-ddeddfwriaeth. Gwnaed amcangyfrifon o effeithiau tebygol y mesurau hyn lle bo hynny'n bosibl. Mewn achosion lle mae'r cynigion yn ceisio canlyniad drwy is-ddeddfwriaeth ddilynol, darperir dadansoddiad dangosol o'r effeithiau lle mae'r datblygiad polisi yn ddigon datblygedig. Bydd dadansoddiad o effeithiau disgwylidig yr is-ddeddfwriaeth yn cael ei gynnal yn ystod ei ddatblygiad pan fydd y manylion penodol wedi'u cwblhau.

Ein hymagwedd at y Bil Aer Glân (Cymru)

Yn y Papur Gwyn hwn, rydym yn nodi'r bwriad a'r gofynion polisi y bwriadwn eu datblygu yn y Bil. Mae dwy thema allweddol yn y Bil. Y cyntaf yw cyflwyno dull strategol drwy strategaeth neu gynllun sy'n dangos ein huchelgais cyffredinol o ran ansawdd aer a sut y byddwn yn cyflawni hyn, ochr yn ochr â fframwaith ar gyfer gosod targedau ansawdd aer. Yn ail, rydym yn cyflwyno system rheoli ansawdd aer deddfwriaethol a rheoleiddiol fanwl sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni ein dull strategol.

Dull Strategol o Reoli Ansawdd Aer

- gofyniad i adolygu Cynllun neu Strategaeth Aer Glân bob 5 mlynedd o leiaf
- Pwerau i osod targedau ansawdd aer, gan gynnwys ar gyfer PM_{2.5};

Systemau rheoli ansawdd aer deddfwriaethol a rheoleiddiol

- Cyfundrefn Rheoli Ansawdd Aer Lleol (LAQM) wedi'i hegluro a'i gwella
- pwerau cyfunol i roi Parthau Aer Glân neu Barthau Allyriadau Isel ar waith;
- cryfhau pwerau i fynd i'r afael â'r arfer o segura llonydd;
- gwella pwerau sy'n bodoli eisoes ar gyfer rheoli mwg sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael â llygredd aer o losgi domestig (PM_{2.5});
- Dyletswydd ar gyrff ar draws y sectorau i gadw at ganllawiau sy'n annog gweithredu ar llygredd aer.

Pennod 1: Ein dull strategol o wella ansawdd aer a chefnogi Cymru iachach.

Y Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach

Rydym yn cynnig creu gofyniad yn y Bil i Gynllun neu Strategaeth Aer Glân i Gymru gael ei adolygu a'i gyhoeddi bob 5 mlynedd o leiaf.

Ym mis Awst 2020, cyhoeddwyd y Cynllun Aer Glân i Gymru cyntaf. . Mae'n nodi ein hymrwymiad a'n huchelgais hirdymor i wella ansawdd aer a'r camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni hyn. Mae hefyd yn dangos sut y byddwn yn bodloni, a lle bo'n bosibl yn rhagori, ar ofynion a nodir yng nghanllawiau a deddfwriaeth y DU a'r rhai rhyngwladol. Mae'n hanfodol bod pawb yng Nghymru yn gallu mwynhau manteision aer glân. Bydd gofyniad mewn deddfwriaeth i Gynllun neu Strategaeth Aer Glân Cymru gael ei adolygu a'i gyhoeddi o leiaf bob 5 mlynedd yn sicrhau ein bod yn parhau i fynd i'r afael â llygredd aer.

Y sefyllfa deddfwriaethol bresennol

Mae Deddf yr Amgylchedd 1995 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Lywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig ar gyfer Cymru a'r Alban lunio strategaeth ansawdd aer

genedlaethol sy'n cynnwys safonau, amcanion a mesurau ar gyfer gwella ansawdd aer yr amgylchedd a pharhau i adolygu'r polisïau hyn. Mae deddfwriaeth ar wahân ar gyfer Gogledd Iwerddon.

Mabwysiadwyd y Strategaeth Ansawdd Aer gyntaf ym 1997. Disodlwyd y Strategaeth hon ym mis Ionawr 2000 gan y Strategaeth Ansawdd Aer ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon a sefydlodd y fframwaith ar gyfer cyflawni gwelliannau pellach mewn ansawdd aer yr amgylchedd. Nododd y strategaeth gamau gweithredu ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol i wella ansawdd aer. Diweddarwyd y strategaeth ymhellach yn 2003. Arweiniodd adolygiad llawn at Strategaeth wedi'i diweddarau a gyhoeddwyd yn 2007.

Mae gwaith ym mhob gweinyddiaeth i wella ansawdd aer wedi parhau i fynd rhagddo. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Cynllun Aer Glân i Gymru yn ddiweddar, er nad yw'r Strategaeth genedlaethol ei hun wedi'i hadolygu ers ei chyhoeddi ddiwethaf.

Mae paragraff 2 o Atodlen 11 i Fil Amgylchedd y DU yn diwygio Deddf yr Amgylchedd 1995. Mae'r gwelliant mewn perthynas â'r Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol yn egluro mai Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am lunio a chyhoeddi Strategaeth Ansawdd Aer mewn perthynas â Chymru, yn hytrach na bod gofyniad ar yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud hynny (mae hyn yn wir hefyd mewn perthynas â'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill). Effaith arall y gwelliant yw y bydd Strategaeth ar wahân ar gyfer y DU gyfan, sy'n cynnwys elfennau Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Rhaid adolygu Strategaeth y DU ar ôl 12 mis (o'r pwynt y daw'r ddarpariaeth i rym) a phob 5 mlynedd wedi hynny.

Ar hyn o bryd, nid oes gofyniad wedi'i bennu yn y gyfraith i'r Cynllun Aer Glân i Gymru gael ei adolygu a'i gyhoeddi o fewn amserlenni penodol.

Yr achos dros newid

Gan fod ansawdd aer wedi'i ddatganoli, Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am bennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer rheoli ansawdd aer yng Nghymru. Cyhoeddwyd ein Cynllun Aer Glân cyntaf i Gymru ym mis Awst 2020.

Mae'r Cynllun Aer Glân i Gymru yn fodd o drefnu cyfres o bolisïau ac uchelgeisiau ar gyfer gwella ansawdd aer mewn ffordd systematig i gynorthwyo a hwyluso'r gwaith o gyflawni. Mae'r Cynllun Aer Glân i Gymru yn nodi cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer ymdrin â phob ffynhonnell llygredd aer, gan wneud ein haer yn iachach i'w anadlu, gwarchod natur a rhoi hwb i'r economi.

Mae'n bwysig i Weiniogion Cymru allu pennu eu hamserlenni eu hunain ar gyfer cyhoeddi ac adolygu'r Cynllun Aer Glân i gydnabod yr amgylchiadau penodol yng Nghymru.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd adolygu, diweddarau a diwygio'r Cynllun Aer Glân o bryd i'w gilydd i adlewyrchu blaenoriaethau newidiol a pharhaus ar gyfer mynd i'r afael â llygredd aer, gan ddiogelu iechyd pobl a gwarchod yr amgylchedd ehangach.

Credwn y bydd sicrhau bod y broses ar gyfer cyhoeddi ac adolygu Cynllun Aer Glân yn cael ei chorffori mewn deddfwriaeth yn sicrhau bod camau hanfodol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â llygredd aer er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Newid deddfwriaethol arfaethedig

Rydym yn cynnig cynnwys darpariaeth yn y Bil i gyhoeddi Cynllun neu Strategaeth Aer Glân o fewn 12 mis i basio'r Ddeddf . Rydym yn cynnig darpariaeth yn y Bil i ni adolygu'r Cynllun Aer Glân bob 5 mlynedd, a newid hynny fel y bo'n briodol.

Bydd yr adolygiad yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiweddarau a diwygio'r Cynllun Aer Glân yn ôl yr angen.

Effaith gyffredinol y cynnig hwn fydd gwella ansawdd aer ledled Cymru a lleihau effaith llygredd aer ar iechyd pobl, yr amgylchedd, bioamrywiaeth a'r economi ehangach.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

1. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i greu gofyniad yn y Bil i Gynllun neu Strategaeth Aer Glân i Gymru gael ei adolygu a'i gyhoeddi bob 5 mlynedd o leiaf? Os nad ydych chi, rhwch fanylion.
2. Ydych chi'n cytuno â'r amserlenni arfaethedig ar gyfer adolygu'r Cynllun neu'r Strategaeth Aer Glân? Os nad ydych chi, rhwch fanylion.

Fframwaith gosod targedau ansawdd aer

Er mwyn sbarduno'r camau sydd eu hangen i sicrhau aer glanach a lleihau effeithiau llygredd aer yng Nghymru, mae'n bwysig ein bod yn gallu gosod y targedau cywir.

Rydym yn cynnig cyflwyno fframwaith gosod targedau ansawdd aer gyda gofyniad i Weinidogion Cymru osod un neu fwy o dargedau llygryddion aer, gan gynnwys ar gyfer deunydd gronynnol mân (PM_{2.5}) mewn crynodiadau aer yr amgylchedd, mewn is-ddeddfwriaeth drwy reoliad.

Mae'r fframwaith presennol ar gyfer polisi ansawdd aer yng Nghymru a ledled y DU yn deillio o bolisiau a deddfwriaeth

Domestig, Ewropeaidd a rhyngwladol ychwanegol. Mae angen mynd i'r afael â materion ansawdd aer ar raddfa leol, genedlaethol a rhyngwladol i fod yn effeithiol. Er bod ansawdd aer yn fater datganoledig, mae Llywodraeth y DU yn sicrhau bod polisiau'r DU yn bodloni canllawiau a chytundebau rhyngwladol ac Ewropeaidd. Mae rhagor o fanylion yn Atodiad 3.

Mae gwelliannau cenedlaethol wedi'u hysgogi gan gyfarwyddbau Ewropeaidd, gan gynnwys y rhai sy'n gosod cyfyngiadau ar grynodiadau yn yr amgylchedd, gostyngiadau mewn allyriadau llygryddion yn y DU a chrynodiadau o lygryddion o ffynonellau penodol, megis ceir a diwydiant. O dan ddeddfwriaeth genedlaethol ar wahân sy'n hŷn na'r cyfarwyddbau, mae Awdurdodau Lleol yn mynd i'r afael â materion ansawdd aer ar raddfa leol drwy'r broses Rheoli Ansawdd Aer Lleol.

Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn cyhoeddi canllawiau sy'n ceisio llywio'r broses o bennu safonau ansawdd aer cenedlaethol a darparu sail ar gyfer diogelu iechyd y cyhoedd rhag effeithiau andwyol llygredd aer. Fodd bynnag, nid yw'r canllawiau'n safonau gan eu bod wedi'u seilio'n gyfan gwbl ar gasgliadau gwyddonol am agweddau iechyd cyhoeddus ar lygredd aer. Hefyd, mae angen i safonau ansawdd aer rheoleiddiol cenedlaethol ystyried dichonoldeb technegol a'r goblygiadau economaidd, gwleidyddol a chymdeithasol ar gyflawni'r lefelau llygredd hyn.

Yr achos dros newid

Er ein bod wedi gadael yr UE, bydd ein safonau ansawdd aer presennol yn parhau i gael effaith yng Nghymru, gan ddarparu dilyniant a sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal. Mae cyfleoedd hefyd i fod yn fwy uchelgeisiol ac i fynd y tu hwnt i'r safonau hyn i leihau niwed o ganlyniad i ansawdd aer gwael.

Rydym yn cynnig cyflwyno fframwaith gosod targedau ansawdd aer a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i dynhau'r targedau ansawdd aer presennol a chyflwyno targedau ar gyfer risgiau llygryddion sydd newydd eu nodi yn seiliedig ar dystiolaeth wrth iddynt ddod i'r amlwg yn y dyfodol.

Diben targedau ansawdd aer newydd yw lleihau'r niwed a achosir gan amlygiad i ansawdd aer gwael ar iechyd a'r amgylchedd. Ochr yn ochr â'r fframwaith, ac fel y cynigiwyd yn y Cynllun Aer Glân i Gymru, rydym yn cynnig cynnwys y gofyniad i osod

targed newydd ar gyfer deunydd gronynnol mân, gan ystyried canllawiau ansawdd aer Sefydliad Iechyd y Byd a derbyn cyngor annibynnol ac arbenigol ar y dull o osod targedau newydd. Wrth osod targedau newydd ar gyfer ansawdd aer yng Nghymru, rydym am sicrhau canlyniadau parhaus sy'n fuddiol i'r ddwy ochr ar draws sectorau, gan osgoi canlyniadau anfwriadol. Mae datblygu targedau ansawdd aer newydd ac uchelgeisiol yn broses gymhleth. Byddwn yn sicrhau bod targedau'n seiliedig ar dystiolaeth, wedi'u llywio gan gyngor annibynnol ac arbenigol ynghyd â barn rhanddeiliaid cyhoeddus.

Targedau ansawdd aer sy'n seiliedig ar dystiolaeth

Mae dystiolaeth ar effeithiau llygryddion aer yn dod i'r amlwg yn gyson. Mae'n bwysig gallu ymateb i dystiolaeth newydd. Bydd hyn yn sicrhau bod y camau a gymerir i gyflawni targedau deddfwriaethol yn effeithiol ac nad ydynt yn arwain at ganlyniadau anghymesur neu anfwriadol. Byddai gosod targedau ansawdd aer penodol mewn deddfwriaeth sylfaenol yn golygu eu bod yn anodd eu diwygio yn y dyfodol. Felly, rydym yn cynnig cyflwyno fframwaith gosod targedau ansawdd aer i sicrhau bod gennym yr hyblygrwydd i weithredu pan fo angen i sicrhau'r canlyniadau mwyaf effeithiol a pharhaus i'n cymunedau a'n hamgylchedd.

Yn unol ag ymrwymadau a wnaed yn y Cynllun Aer Glân, rydym wedi sefydlu panel annibynnol o arbenigwyr (y Panel Cyngori ar Aer Glân). Mae'r Panel yn cynnwys academyddion a llunwyr polisi llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol (ym meysydd ansawdd aer, iechyd a'r amgylchedd). Mae'r Panel yn rhoi cyngor ac argymhellion ar y broses o osod targedau a thargedau penodol ar gyfer llygryddion aer â blaenoriaeth. Er enghraifft, mae'r Panel wedi penderfynu bod y corff cryfaf o dystiolaeth sy'n cysylltu llygrydd aer â marwolaethau ac effeithiau afiachusrwydd eraill yn cynnwys deunydd gronynnol mân. Felly, rydym wedi mynd i'r afael â hyn drwy nodi targed ar gyfer deunydd gronynnol mân (PM_{2.5}) fel blaenoriaeth gyntaf.

Rydym yn ymwybodol o dystiolaeth gynyddol gref ynglŷn ag effeithiau andwyol nitrogen deuocsid (NO₂) ar iechyd, er bod ansicrwydd o hyd ynghylch effeithiau penodol NO₂ ar iechyd gan fod cysylltiad agos rhwng NO₂ a deunydd gronynnol mân sylfaenol. Mae canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer NO₂ fwy neu lai yr un fath â'r terfynau statudol presennol yng Nghymru, er eu bod yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Bydd llawer o fesurau sy'n lleihau PM_{2.5} hefyd yn helpu i leihau lefelau PM₁₀, NO₂ a llygryddion eraill. Hefyd, mae llygryddion aer eraill yn parhau i roi pwysau sylweddol ar gynefinoedd a bioamrywiaeth.

Er mwyn lleihau effeithiau llygredd aer, mae'n bwysig bod gennym y set gywir o dargedau a safonau sy'n ysgogi camau gweithredu effeithiol yn y meysydd pwysicaf. Bydd unrhyw dargedau newydd yn ychwanegol at y rhai presennol, gan gynnwys terfynau ansawdd aer yr amgylchedd statudol a rhwymedigaethau lleihau allyriadau, gan ddarparu llinell sylfaen gyffredin a sbarduno camau mwy penodol lle byddai'n fwyaf effeithiol er budd iechyd y cyhoedd ac iechyd yr amgylchedd.

Ar hyn o bryd, mae Sefydliad Iechyd y Byd yn adolygu ei ganllawiau ar ansawdd aer ac mae'n debygol o gyhoeddi ei ganfyddiadau ddiwedd 2020. Ni allwn achub y blaen ar y cyngor hwn a'r adolygiad gyda thargedau penodol. Gan fod llygryddion ar wahân i ddeunydd gronynnol yn peri risgiau i iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd, byddwn yn

gweithio gyda'r Panel i ystyried targedau pellach i'w cynnwys mewn gwaith rheoleiddio wrth i dystiolaeth ddod i'r amlwg. Bydd hyn yn cynnwys y sylfaen ar gyfer diwygiadau yn y dyfodol ar gyfer canllawiau ansawdd aer a gyhoeddwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd.

Gweithredu'r fframwaith gosod targedau

Rydym yn cynnig cyflwyno fframwaith gosod targedau ansawdd aer i Gymru gyda gofyniad i Weinidogion Cymru osod un neu fwy o dargedau llygryddion aer, gan gynnwys ar gyfer deunydd gronynnol mân (PM_{2.5}) mewn crynodiadau yn aer yr amgylchedd, mewn is-ddeddfwriaeth drwy reoliad. Bydd hyn yn golygu y bydd modd gosod targedau ychwanegol yn y dyfodol er mwyn sicrhau canlyniadau effeithiol a hirdymor ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae ystod eang o dermau a chysyniadau'n gysylltiedig â thargedau ansawdd aer lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, er enghraifft, safonau, amcanion, gwerthoedd targed, gwerthoedd terfyn, llwythi critigol a lefelau critigol. Byddai cyfeiriadau at dargedau o fewn y darpariaethau targed arfaethedig yn cynnwys y termau hyn, heb gyfyngiad.

Pan fydd targedau wedi'u gosod, bwriadwn i'r fframwaith gyflwyno cylch mesur, asesu ac adrodd. Mae hyn yn debyg i'r broses cyllidebu carbon o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), Rhan 2³.

Sut yr ydym yn bwriadu gosod targedau

Wrth **osod targedau** drwy reoliad, rydym yn cynnig bod rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r canlynol:

- cyngor annibynnol ac arbenigol ynghylch math a lefel targed a'r dyddiad y gellir cyflawni'r targed;
- polisi domestig, canllawiau, targedau a gofynion cyfreithiol presennol;
- polisi, canllawiau a deddfwriaeth ryngwladol (gan gynnwys cyngor rhyngwladol ar effeithiau llygredd aer ar iechyd ac ar yr amgylchedd, megis canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer targedau ansawdd aer neu fioamrywiaeth rhyngwladol);
- y dadansoddiadau economaidd, technegol a chymdeithasol, a dichonoldeb cyflawni targedau;
- adroddiadau diweddar gan CNC ar ansawdd aer cenedlaethol, gan gynnwys cyflwr adnoddau naturiol yng Nghymru; a'r
- adroddiad diweddaraf ar dueddiadau'r dyfodol (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015).

Dyletswyddau adrodd

Bwriadwn i Reoliadau sy'n gosod targed ar gyfer deunydd gronynnol mân gael eu cyflwyno o fewn 24 mis i gyhoeddi'r Ddeddf. Gellir cyflwyno targedau pellach o dan y fframwaith, dros gyfnodau hwy, yn dibynnu ar dystiolaeth a ddaw i'r fei. Rhaid adolygu unrhyw dargedau ansawdd aer a bennir o dan y fframwaith gosod targedau o bryd i'w gilydd; rydym yn cynnig y dylid gwneud hynny bob 5 mlynedd o leiaf. Dim ond os bydd y


³ <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/3/part/2/enacted>

cyngor annibynnol ac arbenigol yn newid neu o dan amgylchiadau eithriadol (e.e. pan nad yw'r manteision bellach yn gymesur â'r costau fel y rhagwelwyd pan osodwyd y targed) y caiff y targedau hyn eu diwygio.

Bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi datganiad gerbron Senedd Cymru i adrodd a yw targedau wedi'u cyflawni erbyn y dyddiad a nodir yn y rheoliad (amserlenni adrodd i'w pennu yn y rheoliad gan y byddant yn dibynnu ar argaeledd y mesuriadau a/neu'r data modelu perthnasol). Os na chaiff y targedau eu cyflawni, o fewn 12 mis i gyhoeddi'r datganiad, rhaid i Weinidogion Cymru egluro mewn datganiad pellach pam nad ydynt wedi'u cyflawni, a'r cynigion a'r polisiau y bydd Gweinidogion Cymru (neu awdurdod priodol, os dirprwyir awdurdod gan Weinidogion Cymru⁴) yn eu cymryd i'w cyflawni cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Os na chyflawnir targedau, rhaid i Weinidogion Cymru gael cyngor annibynnol ac arbenigol hefyd o fewn 8 mis i gyhoeddi'r datganiad o ddiffyg cydymffurfio, gan roi barn ar y rhesymau pam nad yw'r targedau wedi'u cyflawni ac ar unrhyw gamau pellach yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i'w cyflawni.

Dangosir y cylch arfaethedig hwn o fesur, asesu ac adrodd isod.

Cylch y Dyletswydd Adrodd



Gosod targedau newydd ar gyfer deunydd gronynnol mân (PM_{2.5}) mewn crynodiadau yn aer yr amgylchedd, mewn is-ddeddfwriaeth drwy reoliad.

Mae rhagor o fanylion am ddeunydd gronynnol a'i effeithiau yn Atodiad 3.

Mae angen i dargedau yn y dyfodol ar gyfer lefelau deunydd gronynnol mân yn yr amgylchedd fod yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r metrigau cywir er mwyn sicrhau'r gwelliant mwyaf effeithiol, yn enwedig i grwpiau sensitif, gan gefnogi'r gwaith o gyflawni

⁴ Un enghraifft o Weinidogion Cymru yn dirprwyo cyfrifoldeb fyddai pe bai gwelliannau neu ychwanegiadau i'r amcanion ansawdd aer a ddiffinnir yn Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000 yn cael eu pennu at ddibenion rheoli ansawdd aer yn lleol.

ein nodau llesiant. Fel y cydnabyddir gan WHO, mae angen i'r broses o bennu safonau geisio sicrhau'r crynodiadau isaf posibl yng nghyd-destun cyfyngiadau, galluoedd a blaenoriaethau iechyd y cyhoedd lleol. I wneud hyn, mae WHO yn annog mabwysiadu safonau sy'n fwyfwy caeth ac olrhain eu heffeithiolrwydd dros amser.

Er ein bod yn cydymffurfio â'r terfynau deddfwriaethol presennol ar gyfer deunydd gronynnol yng Nghymru, mae canllaw cymedrig blynyddol Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ar gyfer PM_{2.5} o 10µg/m³ yn llawer llymach (hanner y terfyn presennol). Ar hyn o bryd, nid oes tystiolaeth glir o grynodiad trothwy o PM_{2.5} yn aer yr amgylchedd nad oes unrhyw effeithiau niweidiol ar iechyd pobl o dan y trothwy hwnnw. Felly, mae gostyngiadau mewn crynodiadau islaw'r terfynau presennol a hyd yn oed y canllaw a argymhellir yn debygol o ddod â manteision iechyd ychwanegol.

Wrth asesu effeithiau iechyd deunydd gronynnol mân, un mesur buddiol yw'r crynodiad cymedrig wedi'i bwysoli ar sail y boblogaeth (PWMC). Y PWMC yw'r crynodiad PM_{2.5} awyr agored cyfartalog y mae poblogaeth yn dod i gysylltiad ag ef. Amcangyfrifwyd mai'r PWMC ar gyfer poblogaeth Cymru yn 2016 oedd 6 µg/m³. Ar y cyfan, mae crynodiadau PM_{2.5} yn y rhan fwyaf o Gymru yn isel, er bod crynodiadau uchel mewn ardaloedd diwydiannol ac ardaloedd trefol poblog. Yn 2019, bu i ni gomisiynu Imperial College London i asesu lefelau PM_{2.5} yng Nghymru ar y pryd ac yn y dyfodol, o ble mae'n dod a'r potensial ar gyfer gostyngiadau pellach drwy fesurau sydd yn cyflawni cyfran dybiannol Cymru o dargedau statudol ar gyfer lleihau allyriadau'r DU. Edrychodd yr asesiad hefyd ar gymhwyso'r mesurau lleihau allyriadau i archwilio sut mae lefelau PM_{2.5} yn debygol o leihau a deall pa lefel o weithredu fydd ei hangen i gyflawni canllaw PM_{2.5} Sefydliad Iechyd y Byd a lleihau amlygiad cyffredinol ar lefelau is hefyd, gan ystyried y cyfraniadau a fewnforir o wledydd eraill a morgludiant, yn ogystal ag allyriadau Cymru. Mae traffig, allyriadau trafndiaeth ffyrdd nad ydynt yn dod o bibellau egsôst ac allyriadau domestig a diwydiannol yn cyfrannu at y lefelau uchel lleol mewn ardaloedd trefol. Mae cyfraniad llosgi coed domestig at grynodiadau PM_{2.5} yn sylweddol ar hyd arfordir y gogledd ac mewn ardaloedd trefol, gan gynnwys y poblogaethau trefol mawr yn Abertawe a Chaerdydd.

Yn seiliedig ar y PWMC yn 2016, amcangyfrifwyd bod amlygiad 3.16 miliwn o bobl yng Nghymru i grynodiad cyfartalog o 6.0µg/m³ o ddeunydd gronynnol mân yn cyfateb i effaith iechyd gwerth £950 miliwn y flwyddyn (amcangyfrif canolog). Yn dibynnu ar y llwybr penodol a ddewisir i gyflawni cyfran Cymru o dargedau NECD ar gyfer 2030, amcangyfrifir bod y gostyngiadau cysylltiedig yn amlygiad y boblogaeth i ddeunydd gronynnol mân yn arwain at fuddion iechyd gwerth rhwng £50 miliwn a £96 miliwn y flwyddyn yng Nghymru.

Dangosodd y dadansoddiad fod cynnydd sylweddol yn debygol o gael ei wneud o ran lleihau PM_{2.5} erbyn 2030, a'i wella ymhellach drwy gymryd y mesurau technegol aml-lygredig a thraws-sector mwyaf cost-effeithiol (gan gyfrif am ddatblygiadau deddfwriaethol a thechnegol). Er bod y dadansoddiad yn destun ansicrwydd ac wedi ystyried is-set o'r holl gyfuniadau posibl o fesurau ac ymarferoldeb gweithredu, mae wedi ein helpu ni i ddeall lle mae'n debygol y bydd angen cymryd camau pellach. Fodd bynnag, heb ddadansoddiad pellach, nid ydym yn gwybod eto a oes modd cyflawni canllaw Sefydliad Iechyd y Byd ym mhob rhan o Gymru, a sut ac erbyn pryd y gellid ei gyflawni os yw'n bosibl.

Mae angen i dargedau newydd fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn i sicrhau eu bod yn heriol, yn realistig ac yn debygol o gyflawni'r canlyniadau cywir. Mae'r broses o bennu targedau ansawdd aer newydd sy'n effeithiol, yn gymesur ac yn ymarferol yn gymhleth ac yn cymryd llawer o amser, a bydd angen dadansoddiad a chynbor pellach wrth i'r broses ddatblygu. Ochr yn ochr ag ystyried cynbor arbenigol, mae angen ystyried effeithiau iechyd ac amgylcheddol, y technolegau sydd ar gael, ymddygiad dynol, dichonoldeb economaidd-gymdeithasol a ffactorau eraill. Mae sawl elfen hanfodol o'r gwaith yn gofyn am fewnbynnau o fodelu PM_{2.5} llygredd aer, maes lle mae ansicrwydd gwyddonol a thechnegol hirsefydlog. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gynrychioliad allyriadau, effeithiau trawsffiniol a ffurfiad PM eilaidd, a'u hymatebion i newidiadau mewn allyriadau. Bydd angen rhoi cyfrif priodol am y newidiadau diweddar nas rhagwelwyd i grynodiadau ac allyriadau llygredd aer yn ystod 2020, o ganlyniad i COVID-19, wrth bennu dichonoldeb targed. Gallai gosod targed heb roi ystyriaeth briodol i'w gyflawnadwyedd a'r mesurau sydd eu hangen i'w gyflawni arwain at gamau gweithredu nad ydynt yn gost-effeithiol nac yn gymesur.

Fodd bynnag, mae'r potensial ar gyfer effeithiau iechyd andwyol o ganlyniad i amlygiad i PM_{2.5} yn bodoli o hyd, hyd yn oed os cyflawnir gwerth canllaw Sefydliad Iechyd y Byd. Mae gwaith pellach i'w wneud i leihau llygredd aer a'r effaith a gaiff ar iechyd y cyhoedd. Ein nod yw i grynodiadau ledled Cymru fod yn is na chanllaw Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer PM_{2.5} lle bo hynny'n bosibl, ac yn is eto lle ceir potensial digonol a lle mae amlygiad y cyhoedd yn uchel neu lle ceir risg uchel i grwpiau sensitif.

Bydd gosod targedau ansawdd aer newydd mewn is-ddeddfwriaeth yn galluogi'r broses hon sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gael ei chynnal ac yn rhoi cyfle i'r holl randdeiliaid graffu ar fanylion a lefel yr uchelgais. Mae ansawdd aer a'i berthynas ag iechyd pobl, cynefinoedd a ffactorau cysylltiedig eraill yn gymhleth. Credwn y bydd fframwaith gosod targedau ansawdd aer statudol yn darparu'r gallu i osod, a'r hyblygrwydd i ailosod mewn pryd lle mae'r dystiolaeth yn pennu hynny, dargedau effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gyflawni amcanion iechyd ac amgylcheddol hirdymor ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

3. Ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno fframwaith i osod targedau ansawdd aer newydd?
4. Ydych chi'n cytuno â'r fframwaith arfaethedig ar gyfer pennu targedau ansawdd aer? Os nad ydych chi, rhowch dystiolaeth i gefnogi eich ateb, os yw ar gael.

Pennod 2: Fframwaith deddfwriaethol addas i'r diben

Mae sicrhau bod camau'n cael eu cymryd ar lefel genedlaethol a lleol yn hanfodol er mwyn cyflawni ein hamcanion ansawdd aer presennol a thargedau posibl yn y dyfodol. Rydym yn cynnig gwella'r ffordd y rheolir ansawdd aer yn lleol yng Nghymru. Er mwyn gwneud hyn, rydym yn cynnig datblygu system Rheoli Ansawdd Aer Leol ddeddfwriaethol a rheoleiddiol glir a mwy integredig.

Ar hyn o bryd, mae meysydd deddfwriaethol ar wahân ac unigryw ar gyfer deddfwriaeth Rheoli Ansawdd Aer Lleol (LAQM) yn Neddf yr Amgylchedd 1995, pwerau codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd a phwerau i fynd i'r afael â'r arfer o segura llonydd yn Neddf Trafnidiaeth 2000, a phwerau rheoli mwg yn Neddf Aer Glân 1993. Rydym am gael fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddiol clir a chryno sy'n dwyn ynghyd yr holl feysydd gwahanol hyn. Mae hyn er mwyn sicrhau yr eir i'r afael â llygredd aer o wahanol ffynonellau gan ddefnyddio'r dulliau deddfwriaethol, rheoleiddiol a pholisi mwyaf priodol. Drwy Ddeddf Aer Glân (Cymru), rydym yn cynnig cydgrynhoi a gwella'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi presennol ar gyfer LAQM, mynd i'r afael â'r arfer o segura llonydd, Parthau Aer Glân neu Barthau Allyriadau Isel ac Ardaloedd Rheoli Mwg. Rydym hefyd yn bwriadu cyflwyno dyletswydd ar gyfrif cyhoeddus, gan gynnwys cyrff preifat a gwirfoddol, i gadw at ganllawiau sy'n annog gweithredu ar ansawdd aer a datgarboneiddio.

Rheoli Ansawdd Aer Lleol (LAQM)

Drwy'r Bil Aer Glân, rydym yn cynnig gwella effeithiolrwydd deddfwriaeth Rheoli Ansawdd Aer Lleol (LAQM) er mwyn sicrhau bod y gyfundrefn yn cyflawni gwelliannau ansawdd aer ledled Cymru

Drwy'r Bil, rydym yn ceisio egluro a chryfhau geiriad y ddeddfwriaeth LAQM bresennol. Mae'r newidiadau deddfwriaethol yn ceisio galluogi camau ataliol drwy fynnu strategaethau monitro rhagweithiol, a rhagweld dyddiad ar gyfer cydymffurfio, yn ogystal â sicrhau cydymffurfiaeth cyn gynted â phosibl mewn Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (AQMAs). Rydym yn cydnabod nad oes gan Awdurdodau Lleol yr holl ysgogiadau sydd eu hangen i wella ansawdd aer yn eu hardaloedd. Drwy'r Bil, rydym yn cynnig cyflwyno cysyniad 'partneriaid' sy'n rhoi cefnogaeth ddeddfwriaethol i Awdurdodau Lleol wrth ddatblygu a gweithredu atebion ar y cyd â sefydliadau eraill.

Y sefyllfa ddeddfwriaethol bresennol

Mae Rhan IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 yn darparu'r fframwaith ar gyfer Rheoli Ansawdd Aer Lleol (LAQM). Mae'r gyfundrefn LAQM yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol weithio gydag eraill i asesu a rheoli risgiau i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i lygredd aer. Gan ddefnyddio canllawiau statudol⁵ a thechnegol⁶, rhaid iddynt

⁵ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/rheoli-ansawdd-aer-lleol-yng-nghymru.pdf>

⁶ <https://laqm.defra.gov.uk/technical-guidance/>

gynnal adolygiadau ac asesiadau rheolaidd o ansawdd aer yn eu hardal yn erbyn yr amcanion ansawdd aer a chyflwyno Adroddiadau Cynnydd Blynyddol (APRs) i Lywodraeth Cymru. Os nad yw'r amcanion ansawdd aer yn debygol o gael eu cyflawni, rhaid i Awdurdodau Lleol ddynodi Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (AQMA) a rhoi Cynlluniau Gweithredu Ansawdd Aer (AQAPs) ar waith i ostwng lefelau llygredd.

Mae asesu ansawdd aer yn canolbwyntio ar leoliadau lle mae aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn rheolaidd a lle ceir cysylltiad â'r llygrydd dan sylw, dros y raddfa amser y diffinnir yr amcan ansawdd aer ar ei chyfer. Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar Awdurdodau Lleol i ddangos eu bod yn gwneud popeth sy'n rhesymol bosibl i weithio tuag at y gwerthoedd gwrthrychol cyfreithiol.

Rydym yn gyfrifol am reoli cydymffurfiaeth â Deddf yr Amgylchedd 1995 ac rydym wedi cyhoeddi canllawiau statudol yn nodi'r hyn a ddisgwylir gennym gan Awdurdodau Lleol o ran cyflawni eu dyletswyddau. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn goruchwylio'r gwaith o arfarnu APRs ac AQAPs i sicrhau eu bod yn bodloni rhwymedigaethau statudol ac yn cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae gan Weinidogion Cymru ystod eang o bwerau o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 mewn perthynas â gosod safonau ac amcanion ansawdd aer. Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi pwerau i Awdurdodau Lleol i helpu i gyflawni'r safonau a'r amcanion, gan gynnwys gwahardd rhai gweithgareddau allyriadau llygryddion, megis cyfyngu ar fynediad i gerbydau. Gall Gweinidogion Cymru hefyd ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol wneud gwaith monitro pellach lle bo hynny'n briodol.

Yr achos dros newid

Mae deddfwriaeth LAQM wedi aros yr un fath ers ei sefydlu ym 1997. Mae'r geiriad deddfwriaethol yn amwys, sy'n golygu y dibynnir ar ganllawiau statudol i amlinellu dyletswyddau Awdurdodau Lleol. Dylid diweddarau'r deddfwriaeth hefyd i ystyried egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Er bod canllawiau statudol LAQM Cymru yn seiliedig ar yr egwyddorion hyn, rydym am gael fframwaith deddfwriaethol clir a diamwys sy'n ymgorffori'r Pum Ffordd o Weithio sydd wrth wraidd y gyfundrefn LAQM.

Yn ogystal, er bod y dull seiliedig ar amlygiad sydd ar waith ar hyn o bryd wedi gwella ein gwybodaeth am ffynonellau a graddau llygredd aer yn sylweddol, mae'r gyfundrefn yn parhau i weithredu'n adweithiol, gan ofyn am gamau gweithredu dim ond pan fydd ardal sydd â phroblem llygredd eisoes wedi'i nodi fel un sy'n mynd y tu hwnt i derfynau cyfreithiol, neu'n agos atynt. Felly, mae angen gwelliannau er mwyn sicrhau bod y gyfundrefn LAQM yn fwy rhagweithiol ac yn canolbwyntio ar iechyd.

Byddai gyfundrefn LAQM fwy rhagweithiol yn helpu Awdurdodau Lleol i ddod o hyd i ardaloedd problemus ac yn cymryd camau i atal derfynau cyfreithiol rhag cael eu torri. Dylai'r gyfundrefn ganolbwyntio ar wella ansawdd aer er budd iechyd y cyhoedd ac nid dim ond er mwyn cydymffurfio â therfynau cyfreithiol. Bydd hyn yn cynnwys lleihau amlygiad, cymryd camau i ddiogelu'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf ac ymdrechu i gyflawni'r lefelau llygredd ymarferol isaf.

Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn cynnig diweddarau fframwaith deddfwriaethol LAQM. Byddwn hefyd yn archwilio opsiynau polisi ac ariannu yn dilyn adolygiad cynhwysfawr o'r fframwaith LAQM i ategu'r newidiadau deddfwriaethol a gynigir yma.

Newid deddfwriaethol arfaethedig

Yn gyntaf, rydym yn cynnig troi deddfwriaeth LAQM yn Fil Aer Glân (Cymru) a chryfhau'r geiriad er mwyn rhoi mwy o eglurder a manylion mewn perthynas â dyletswyddau sefydliadol penodol. Diben y cynnig deddfwriaethol hwn yw nodi fframwaith cyfreithiol clir a chryno sy'n osgoi amwysedd ac yn egluro'r dyletswyddau presennol. Bydd hyn yn cynnwys egluro dyletswyddau Awdurdodau Lleol o ran monitro ac asesu. Bydd y ddeddfwriaeth yn cynnwys gofyniad i Awdurdodau Lleol gynnal adolygiadau rheolaidd o'u strategaeth monitro ac asesu. Diben adolygiadau rheolaidd o'r strategaeth fonitro yw sicrhau bod y gyfundrefn yn rhagweithiol ac atal pobl rhag cael eu hamlygu'n rheolaidd i lefelau uchel o lygredd.

Rhagwelir y bydd yr adolygiadau hyn yn cael eu cynnal yn flynyddol a byddant yn cael eu cynnal fel rhan o'r broses APR. Bydd hyn yn galluogi tystiolaeth neu bryderon a ddygir i'r Awdurdod Lleol gan y gymuned, neu drwy brosesau cynllunio, i gael eu trafod a, lle y bo'n briodol, eu hymgorffori yn y strategaeth fonitro. I ategu hyn, byddwn yn datblygu newidiadau polisi LAQM i gynorthwyo Awdurdodau Lleol i gyfrif am benderfynyddion iechyd ehangach a risgiau yn eu strategaeth monitro ac asesu, er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd yn well.

Er mwyn cryfhau geiriad prosesau AQMA, byddwn yn cynnwys gofyniad clir i Awdurdodau Lleol ddarparu dyddiad cydymffurfio rhagamcanol ar gyfer pob AQMA, ar ôl cynhyrchu ac arfarnu AQAP. Cytunir ar y dyddiad cydymffurfio gyda Gweinidogion Cymru. Bydd hyn yn rhoi ffocws clir i sbarduno camau effeithiol ac amserol ymlaen i ostwng lefelau llygredd islaw terfynau statudol ac, o ganlyniad, cefnogi diddymu AQMA.

Er mwyn cefnogi hyn, bydd y ddeddfwriaeth bresennol ynghylch AQAPs yn cael ei hegluro er mwyn sicrhau eu bod yn nodi camau gweithredu ac amserlenni cysylltiedig i sicrhau bod safonau ac amcanion ansawdd aer yn cael eu cyflawni a'u cynnal yn hirdymor. Yn ogystal, byddwn yn ychwanegu'r gofyniad i Awdurdod Lleol gynnal adolygiad o gynllun gweithredu o leiaf unwaith bob pum mlynedd i amserlenni a nodir mewn canllawiau statudol ar hyn o bryd.

Yn ail, rydym yn cynnig cyflwyno'r cysyniad o 'bartneriaid' i wella cydweithio a rhoi cymorth i Awdurdodau Lleol. Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am reoli ansawdd aer yn lleol, ond efallai na fydd ganddynt yr holl ysgogiadau angenrheidiol i sicrhau gwelliannau i ansawdd aer ar gyfer eu hardal. Yn ogystal, efallai y bydd camau effeithiol a nodir mewn AQAP yn golygu bod angen cymorth gan sefydliadau eraill, neu efallai y bydd angen iddynt gael eu cyflawni gan sefydliadau eraill. Felly, byddai'n ddefnyddiol i sefydliadau lleol, boed yn gyhoeddus neu'n breifat, ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol yn y broses hon.

Mae'r cynnig deddfwriaethol hwn yn ceisio cefnogi Awdurdodau Lleol yn eu hymdrechion i gydweithio â 'phartneriaid' lleol i ddatblygu, gweithredu ac adolygu

camau gweithredu i wella ansawdd aer lleol. Ein huchelgais yw ehangu'r amrywiaeth o bartïon sy'n cyfrannu at wella ansawdd aer lleol, felly rhagwelir y gall 'partner' fod yn unrhyw sefydliad y mae'r Awdurdod Lleol yn barnu ei fod yn berthnasol, yn dilyn asesiad o faterion ansawdd aer yn yr ardal. Gall hyn gynnwys Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol cyfagos, byrddau iechyd a sefydliadau eraill. Bydd y ddeddfwriaeth yn nodi'n glir na all sefydliad a ddynodwyd yn 'bartner' wrthod ymgysylltu'n rhesymol â'r Awdurdod Lleol i ddatblygu camau effeithiol i wella ansawdd aer, oni bai y gallant gyfiawnhau hyn gyda thystiolaeth addas.

Mae'r ystod o gamau defnyddiol y gallai sefydliadau eu cymryd i gefnogi'r Awdurdod Lleol yn eang iawn. Gallai enghreifftiau gynnwys datblygwyr yn gweithio gyda thimau ansawdd aer Awdurdodau Lleol yn gynt yn y broses gynllunio, swyddfa leol yn lleihau manau parcio neu fusnes lleol yn addasu amseroedd dosbarthu er mwyn osgoi oriau brig. Byddai'r ffordd y mae sefydliad yn cynorthwyo'r Awdurdodau Lleol yn dibynnu ar yr amgylchiadau lleol penodol. Byddai'r mecanwaith hwn yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer datblygu camau gweithredu ar gyfer AQMA, ond mae hefyd yn ddefnyddiol yn fwy cyffredinol wrth i Awdurdodau Lleol geisio gwella ansawdd aer yn eu hardal.

Bydd cyflawni'r cynigion deddfwriaethol hyn yn sicrhau cyfundrefn LAQM sy'n mynd ati'n rhagweithiol i chwilio am broblemau ansawdd aer ac yn mynd i'r afael â nhw cyn gynted ag y bo modd. Bydd hyn yn diogelu iechyd y cyhoedd yn fwy effeithiol na'r gyfundrefn bresennol, sydd ond yn ymateb i broblemau unwaith y bydd terfynau cyfreithiol wedi'u torri. Yn ogystal, bydd gwell cydweithredu rhwng sefydliadau lleol yn sicrhau bod gwelliannau'n cael eu cyflawni'n gynt, yn fwy effeithiol ac yn unol ag egwyddorion a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd yr ymdrech gydweithredol hon yn cefnogi datblygiad pentrefi, trefi a dinasoedd iach a gweithgar. Bydd hyn o fudd i unigolion, busnesau a sefydliadau lleol ac yn cefnogi ein diwydiant twristiaeth drwy ddarparu manau deniadol a diogel i ymweld â nhw.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

5. Ydych chi'n cytuno bod angen egluro a chryfhau deddfwriaeth? Os felly, ydych chi'n cytuno â'r dull a amlinellwyd?
6. Ydych chi'n meddwl y bydd dyddiad cydymffurfio y cytunir arno gan y naill barti a'r llall fesul achos yn helpu i gyflawni gwelliannau ansawdd aer mewn AQMA, cyn gynted ag y bo modd? Rhwch fanylion.
7. Sut y gallwn sicrhau bod y cysyniad 'partneriaid' yn gwella ac yn cefnogi cydweithio i wella ansawdd aer?
8. A fydd y cynigion hyn gyda'i gilydd yn helpu i ddarparu cyfundrefn LAQM fwy rhagweithiol ?

Pwerau cyfunol ar gyfer codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd

Rydym yn cynnig creu pwerau pwrpasol ar gyfer codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd o fewn y Bil ac ehangu'r cyfyngiad presennol ar ddefnyddio enillion net ar gyfer polisïau trafnidiaeth lleol. Rydym hefyd yn bwriadu cychwyn pwerau presennol mewn perthynas â chynlluniau codi tâl a wneir gan Awdurdodau Lleol.

Mae angen pwerau wedi'u cydgrynhai fel y gellir cyflwyno'n effeithlon Parthau Allyriadau Isel (neu Parthau Aer Glân) a mathau eraill o gynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd, lle mae achos i'w sefydlu i gefnogi gwelliannau i ansawdd aer. Gellir disgrifio Parthau Allyriadau Isel fel:

Ardal lle cymerir camau wedi'u targedu i wella ansawdd aer, yn enwedig drwy annog pobl i beidio â defnyddio'r cerbydau mwyaf llygrol.

Er mwyn annog pobl i beidio â defnyddio'r cerbydau mwyaf llygrol, gellir codi tâl ar ffyrdd dynodedig o dan rai amgylchiadau, megis lle na chaiff safonau allyriadau a bennir ar gyfer categorïau penodol o gerbydau eu cyflawni. Gall tâl sy'n seiliedig ar allyriadau amrywio ar draws yr ystod o gategoriâu o gerbydau.

Mae'n bwysig bod awdurdodau priffordd yn gallu cyflwyno cynllun codi tâl yn effeithlon ar ffyrdd lleol (Awdurdodau Lleol) ac ar gefnffyrdd (Llywodraeth Cymru). Byddai'r darpariaethau deddfwriaethol arfaethedig yn sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol bwerau clir i gyflwyno cynllun codi tâl ar ffyrdd y maent yn awdurdod traffig perthnasol ar eu cyfer.

Ar ddiwedd 2016, ymgynghorodd Llywodraeth y DU ar ei Fframwaith Parthau Aer Glân drafft a gyhoeddwyd wedyn ym mis Mai 2017 ac a ddiweddarwyd ym mis Chwefror 2020⁷. Mae'r Fframwaith yn nodi'r egwyddorion y dylai Awdurdodau Lleol eu dilyn wrth sefydlu Parthau Aer Glân yn Lloegr. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ei Fframwaith ei hun yn 2018⁸.

Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynllun y DU ar gyfer mynd i'r afael â chrynodiadau nitrogen deuocsid ar ochr y ffordd⁹. Yn y cynllun hwn, nododd Llywodraeth y DU mai codi tâl mewn Parthau Aer Glân yw'r mesur y gall ei fodolu'n genedlaethol a fydd yn sicrhau gwerthoedd terfyn nitrogen deuocsid (NO₂) statudol mewn trefi a dinasoedd yn yr amser byrraf posibl. Mae cynllun atodol Llywodraeth Cymru i gynllun y DU ar gyfer mynd i'r afael â chrynodiadau nitrogen deuocsid ar ochr y ffordd yn 2017 yn nodi'r camau a gymerwyd i sicrhau cydymffurfiaeth yng Nghymru¹⁰.

⁷ <https://www.gov.uk/government/publications/air-quality-clean-air-zone-framework-for-england>

⁸ <https://llyw.cymru/fframwaith-parth-aer-glan-i-gymru>

⁹ <https://www.gov.uk/government/publications/air-quality-plan-for-nitrogen-dioxide-no2-in-uk-2017>

¹⁰ <https://llyw.cymru/cynllun-ansawdd-aer>

Cadarnhawyd mai Parthau Aer Glân yw'r mesur a ffefrir i gydymffurfio â gwerthoedd terfyn mewn sawl tref/dinas yn Lloegr. Mae disgwyl i'r cyntaf ohonynt gael ei lansio yn 2021.

Er nad oes unrhyw gynlluniau penodol ar hyn o bryd i gyflwyno cynlluniau codi tâl tebyg mewn unrhyw ran o Gymru, mae Parthau Aer Glân yn parhau i fod yn 'fesurau rhagofalus wrth gefn' ar gyfer dau leoliad ar y rhwydwaith cefnffyrdd yng Nghymru (Casnewydd a Phontypridd), sy'n golygu y gellid eu cyflwyno yn y dyfodol pe bai'r mesurau presennol yn methu â sicrhau cydymffurfiaeth barhaus.

Mae Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru wedi bod yn ystyried y problemau, y cyfleoedd, yr heriau a'r amcanion ar gyfer mynd i'r afael â thagfeydd ar yr M4 yn y De-ddwyrain yn dilyn y penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â ffordd liniaru'r M4 o amgylch Casnewydd. Mae'r astudiaeth wedi bod yn ystyried materion cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol, gan gynnwys ansawdd aer. Cyhoeddodd y Comisiwn ei Adroddiad Terfynol ym mis Tachwedd 2020¹¹.

Yn 2020, comisiynodd Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru adolygiad annibynnol o fanteision a heriau gwahanol ddulliau rheoli galw, megis codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd. Mae'r adolygiad hwn¹², a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd ar yr un pryd â'r ymgynghoriad ar y Strategaeth Drafnidiaeth¹³ newydd, yn nodi amrywiaeth o faterion y dylid eu hystyried wrth benderfynu ar ddull o ymdrin â chynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd.

Mae'r Strategaeth Drafnidiaeth newydd i Gymru yn rhagweld system drafnidiaeth sy'n dda i bobl a chymunedau, gan gyfrannu at Gymru fwy cyfartal ac iachach. Hefyd, mae'n system drafnidiaeth sy'n dda i'r amgylchedd, gan gyfrannu at Gymru sy'n fwy cydnerth ac yn gyfrifol ar lefel yn fyd-eang.

Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar hierarchaeth teithio sy'n gosod teithio mewn car modur preifat ar waelod y rhestr. Bydd mwy o bobl yn cael eu hannog i gerdded a beicio ar gyfer teithiau byrrach, a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus lle bo angen. Mae annog pobl i beidio â defnyddio ceir yn elfen bwysig o'r strategaeth hon. Mae ein Cynllun Aer Glân i Gymru yn adlewyrchu hyn, gan nodi ein disgwyliad i Parthau Aer Glân gael eu sefydlu mewn trefi a dinasoedd ledled Cymru er mwyn lleihau effaith allyriadau trafndiaeth ar iechyd. Efallai y bydd rhai o'r rhain yn cael eu hategu gan elfen o godi tâl. Adlewyrchir hefyd yn y Strategaeth Drafnidiaeth yr angen am ddull rhanbarthol o gynllunio a darparu gwasanaethau trafndiaeth; bydd gan Gydbwyllgorau Corfforaethol (CJCs) y grym i gynllunio ar gyfer gwasanaethau ar lefel ranbarthol a llywio mentrau lleol.

Y ddarpariaeth ddeddfwriaethol bresennol

Mae pwerau'r cynllun codi tâl wedi'u nodi ar hyn o bryd yn Neddf Trafnidiaeth 2000 (Rhan III). Mae hyn yn darparu ar gyfer gwneud cynlluniau drwy orchymyn awdurdodau (traffig) lleol ("cynllun codi tâl lleol") neu gan Weinidogion Cymru ("cynllun codi tâl ar

¹¹ <https://llyw.cymru/comisiwn-trafnidiaeth-de-ddwyrain-cymru>

¹² <https://llyw.cymru/adolygiad-annibynnol-o-godi-tal-ar-ddefnyddwyr-y-ffyrdd-yng-nghymru>

¹³ <https://llyw.cymru/llywybr-newydd>

gefnffyrdd"). Diffinnir cynllun codi tâl fel cynllun ar gyfer codi tâl mewn perthynas â defnyddio neu gadw cerbydau modur ar ffyrdd.

Dim ond er mwyn hwyluso'r gwaith o gyflawni polisïau trafndiaeth lleol y gellir gwneud cynllun lleol. Rhaid i gynlluniau gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

Mae Atodlen 12 yn nodi bod yr enillion a godir drwy gynllun codi tâl i'w defnyddio er mwyn hwyluso'r gwaith o gyflawni polisïau trafndiaeth lleol yr awdurdod.

Mae adran 275 yn nodi y gall y darpariaethau codi tâl ddod i rym drwy orchymyn Gweinidogion Cymru, drwy offeryn statudol. Hyd yma, nid yw'r darpariaethau hyn wedi'u cychwyn yn llawn yng Nghymru.

Yr achos dros newid

Mae'r Bil yn gyfle i ddod â darpariaethau ynghyd mewn un lle, sicrhau bod pwerau'n cael eu cychwyn yn llawn a darparu ar gyfer proses lawer cliriach.

Mae codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd yn cael ei ystyried fwyfwy fel mecanwaith i annog pobl i beidio â theithio mewn cerbydau preifat ac annog newid i ddewisiadau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Yn ôl yr Adolygiad Annibynnol o Godi Tâl ar Ddefnyddwyr y Ffyrdd yng Nghymru, mae codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd yn gallu bod yn: dull rhagorol o helpu Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol Cymru i ddarparu system drafnidiaeth fwy teg, effeithlon a chynaliadwy... [gan] helpu'r Llywodraeth i gyflawni blaenoriaethau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol ehangach fel gwella ansawdd aer, cynaliadwyedd a bod o fudd i 'greu lleoedd' ac iechyd. Mae'n bwysig bod gennym fframwaith deddfwriaethol ar waith i ddiwallu ein hanghenion yn y maes hwn yn y dyfodol.

Byddai cydgrynhoi deddfwriaeth bresennol, mewn perthynas â chodi tâl ar gefnffyrdd, o fewn y Bil, yn peri bod modd sefydlu fframwaith cliriach ac wedi'i deilwra'n well. Bydd hyn yn sicrhau, lle bo achos dros gyflwyno cynllun codi tâl megis Parth Allyriadau Isel, y byddai'r llwybr deddfwriaethol i gyflawni hyn yn glir. Byddai hyn yn cynyddu effeithlonrwydd ac yn lleihau beichiau biwrocraidd, gan sicrhau bod amser yn cael ei leihau yn y broses. Byddai hyn yn gyfle hefyd i sicrhau bod darpariaethau'n diwallu anghenion presennol Cymru, gan adlewyrchu, er enghraifft, y cyfeiriad sy'n cael ei gymryd gyda'n Strategaeth Drafnidiaeth newydd.

Newid deddfwriaethol arfaethedig

Yn ein Cynllun Aer Glân i Gymru, rydym wedi nodi y byddwn yn "cydgrynhoi ac yn gwella'r fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer ansawdd aer, gan gynnwys rheoli mwg a rheoli ansawdd aer lleol, trwy Ddeddf Aer Glân i Gymru". At hynny, mae'r Ddeddf "yn debygol o gynnwys pwerau cyfunol i weithredu Parthau Aer Glân neu Barthau Allyriadau Isel"¹⁴.

¹⁴ <https://llyw.cymru/cynllun-aer-glan-i-gymru-awyr-iach-cymru-iach>

Er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn, a sicrhau bod pwerau ar gael yn rhwydd yng Nghymru i gyflwyno Parthau Allyriadau Isel ar ffyrdd lleol, ac ar gefnffyrdd, mae angen cymryd y camau canlynol:

1. Cychwyn darpariaethau perthnasol o dan Ddeddf Trafnidiaeth 2000 i alluogi Awdurdodau Lleol (naill ai ar eu pen eu hunain, neu mewn partneriaeth ranbarthol ag Awdurdodau Lleol cyfagos) i weithredu cynlluniau codi tâl yn llawn.
2. Creu cyfundrefn codi tâl annibynnol newydd ar gyfer cefnffyrdd drwy'r Ddeddf Aer Glân a chreu pŵer i wneud rheoliadau.
3. Ehangu'r cyfyngiad presennol ar enillion net o godi tâl ar gefnffyrdd i'w fuddsoddi mewn cynlluniau trafndiaeth lleol yn unig.

Mae cynlluniau codi tâl megis Parthau Allyriadau Isel yn cael eu defnyddio mewn ardaloedd lle mae pryderon ansawdd aer hirsefydlog. Gall y dull hwn gefnogi gostyngiadau sylweddol mewn allyriadau o gerbydau llygrol, gyda gostyngiadau o ganlyniad yn amlygiad y cyhoedd i aer llygredig. Gyda strwythur ffioedd wedi'i ddiffinio'n ofalus, a dirwyon am beidio â chydymffurfio, gellir annog gyrwyr y cerbydau mwyaf llygrol (nad ydynt yn cydymffurfio) i ddilyn llwybrau amgen er mwyn osgoi taliadau, gan liniaru'r effaith ar yr ardaloedd mwyaf llygredig. Gall newidiadau eraill mewn arferion gynnwys newid i deithio llesol neu ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus neu, o bosibl, uwchraddio i gerbyd llai llygrol (sy'n cydymffurfio).

Gall hyn wella ansawdd bywyd y rhai sy'n byw yn yr ardal ddynodedig, neu sy'n ymweld â hi, a lleihau'r effeithiau ar gyflyrau iechyd sy'n deillio o aer gwael, gan leihau'r pwysau ar wasanaethau iechyd lleol. Mae manteision iechyd pellach yn codi drwy gynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio dewisiadau teithio llesol amgen.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

9. Ydych chi'n meddwl y byddai'r cynigion yn cefnogi cyflwyno Parthau Aer Glân / Parthau Allyriadau Isel yng Nghymru yn effeithlon ac yn effeithiol?
10. Ydych chi'n credu y dylai refferniw a godir drwy godi tâl ar gefnffyrdd fod ar gael at ddibenion ar wahân i gefnogi polisiâu trafndiaeth lleol (nodwch)?

Mesurau i fynd i'r afael â'r arfer o segura llonydd

Rydym yn cynnig cryfhau'r fframwaith deddfwriaethol presennol sy'n rheoli mynd i'r afael â'r arfer o adael injan cerbyd ffordd yn troi'n segur drwy ddarparu canllawiau i atal hynny, gan gynnwys pwerau disgresiwn i Awdurdodau Lleol gynyddu symiau'r gosb benodedig am adael injan cerbyd ffordd yn troi'n segur.

Drwy'r Bil, rydym yn ceisio grymuso Awdurdodau Lleol drwy eu galluogi i fynd i'r afael â'r arfer o segura llonydd a chynyddu symiau'r Gosb Benodedig am wneud hynny. Rydym hefyd yn ceisio gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i roi sylw priodol i ganllawiau ar ddatblygu a gweithredu mesurau gorfodi i fynd i'r afael â'r arfer hwn.

Y sefyllfa ddeddfwriaethol bresennol

Nodir y fframwaith deddfwriaethol presennol sy'n rheoli mynd i'r afael â'r arfer o segura llonydd yn Rheoliadau Traffig Ffyrdd (Allyriadau Cerbydau) (Cosb Benodedig) (Cymru) 2003¹⁵.

Gwnaed y rheoliadau o dan adran 87 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 a daethant i rym ar 1 Mai 2003. Mae gan Loegr a'r Alban eu rheoliadau cyfatebol eu hunain.

Mae adran 3 yn nodi pan fo unrhyw ran o ardal Awdurdod Lleol wedi'i dynodi'n Ardal Rheoli Ansawdd Aer (AQMA), caiff yr Awdurdod Lleol wneud cais i Lywodraeth Cymru i fod yn Awdurdod Lleol dynodedig.

O dan adran 6, caiff Awdurdod Lleol awdurdodi ei swyddogion (ar yr amod ei fod wedi pasio cwrs hyfforddi ar brofi allyriadau o gerbydau) i brofi cerbydau at ddibenion penderfynu a yw trosedd allyriadau'n cael ei chyflawni neu wedi ei chyflawni; i atal troseddau segura llonydd ac i gyhoeddi Hysbysiadau Cosb Benodedig os cyflawnir troseddau o'r fath yn ei ardal.

O dan adran 7, mae troseddau allyriadau a throseddau segura llonydd o dan adran 42 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 yn cael eu rhagnodi fel troseddau cosb benodedig.

O dan adran 8, mae trosedd allyriadau yn arwain at Hysbysiad Cosb Benodedig o £60, ac mae trosedd segura llonydd yn arwain at Hysbysiad Cosb Benodedig o £20. Mae adran 17 yn nodi, os na thelir yr Hysbysiadau Cosb Benodedig erbyn yr amser penodedig, y gellir cynyddu swm y gosb. Gall y gosb am drosedd allyriadau gynyddu i £90 a gall y gosb am drosedd segura llonydd gynyddu i £40.

¹⁵ <https://www.legislation.gov.uk/wsi/2003/300/contents/made>

O dan adran 9, caiff swyddog awdurdodedig gynnal prawf allyriadau ar unwaith neu, drwy ohirio, ei gwneud hi'n ofynnol i'r prawf gael ei gynnal yn ddiweddarach ond heb fod yn hwyrach nag 14 diwrnod yn ddiweddarach ar adeg ac mewn lle penodol.

O dan adran 12, os bydd gyrrwr yn methu â diffodd yr injan pan ofynnir iddo wneud hynny gan swyddog awdurdodedig, mae'r gyrrwr yn agored, ar euogfarn ddiannod, i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

Gall y person y rhoddwyd Hysbysiad Cosb Benodedig iddo ofyn am wrandawriad. Hefyd, gall person y rhoddwyd Hysbysiad Cosb Benodedig iddo wneud cais i awdurdod priodol am ostyngiad neu hawlildiad a chael y naill neu'r llall yn amodol ar fodloni amodau penodol.

Gellir cyflwyno gorchymyn llys i adennill Hysbysiadau Cosb Benodedig heb eu talu gan fod y rhain yn dod o dan Orchymyn Gorfodi Dyledion Traffig Ffyrdd 1993.

Yn ogystal, gellid cyflwyno Hysbysiad Tâl Cosb (PCN) yn groes i Orchymyn Rheoli Traffig o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 – mae hyn yn golygu yr ystyrir bod yn dramgwydd traffig ar y ffyrdd ac mae'n destun gorfodaeth sifil. Mae'r PCN yn caniatáu ar gyfer taliadau o hyd at £80 – fe'u cyhoeddir os nad yw modurwr sy'n gadael i'r injan redeg yn diffodd yr injan ar ôl cael cais ac yn cael amser i gydymffurfio. Yn gyfreithiol, nid oes cyfnod o amser wedi'i bennu mewn perthynas â'r amser ar gyfer cydymffurfio â'r cais i roi'r gorau i redeg yr injan.

Mae'r fframwaith cyfreithiol presennol hefyd yn ymestyn i adran 42 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988. Mae'r Ddeddf yn gorfodi rheol 123 o God y Ffordd Fawr sy'n nodi: "Rhaid i chi beidio â gadael injan cerbyd yn rhedeg yn ddiangen tra bo'r cerbyd yn sefydlog ar ffordd gyhoeddus".

Mae Adran 98 o Reoliadau Cerbydau Ffyrdd (Adeiladu a Defnyddio) 1986/1078 yn ei gwneud yn ofynnol i yrrwr atal injan cerbyd pan fo'n sefydlog cyn belled ag y bo angen i atal sŵn neu allyriadau egsost oni bai bod y cerbyd yn sefydlog oherwydd traffig.

O dan adran 42 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988, gellir cosbi troseddau o'r fath drwy ddirwy o £2,500 os yw'r cerbyd yn gerbyd nwyddau neu wedi'i addasu i gludo mwy nag 8 teithiwr neu £1,000 fel arall (adran 33 a Rhan 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988). Nid yw'r Ddeddf hon yn cynnwys tir preifat.

Mae rheoliad 98(2) o Reoliadau Cerbydau Ffyrdd (Adeiladu a Defnyddio) 1986 fel y'u diwygiwyd yn nodi'r amgylchiadau pan ganiateir i gerbydau fod yn llonydd gyda'r peiriant yn rhedeg – er enghraifft:

- Pan fo cerbyd yn sefydlog oherwydd hanfodion traffig (wrth giwio, er enghraifft, wrth oleuadau traffig)
- Lle mae injan yn cael ei rhedeg fel y gellir olrhain a chywiro nam
- Pan fo peiriannau ar gerbyd yn mynnu bod y peiriant yn rhedeg (ar gyfer pweru oergelloedd, er enghraifft, neu offer cywasgu ar gerbyd sbwriel)

Yr achos dros newid

Mae trafndiaeth ffyrdd yn ffynhonnell llygredd aer a sŵn fawr oherwydd y twf mewn trafndiaeth ffyrdd dros y degawdau diwethaf, gan gynnwys y defnydd o gerbydau disel (sy'n tueddu i ollwng llygryddion niweidiol megis ocsidiau nitrogen a deunydd gronynnol). Er bod yr ymateb i'r pandemig COVID-19 wedi gweld gostyngiad mewn allyriadau trafndiaeth ffyrdd, mae ansawdd aer yn sensitif i amryw o ffactorau, gan gynnwys y tywydd ac effeithiau tymhorol.

Bu llawer o ddi-ddordeb academiaidd a llywodraethol dros y blynyddoedd diwethaf mewn perthynas â mabwysiadu a defnyddio mesurau i fynd i'r afael â segura llonydd fel offeryn rheoli ar gyfer cyfrannu at leihau allyriadau ac amlygiad.

Aethom ati i gynnal ymgynghoriad ar y Cynllun Aer Glân rhwng mis Rhagfyr 2019 a mis Mawrth 2020. Datgelodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad lefel o bryder ymhlith y cyhoedd ynghylch segura llonydd, gan gynnwys yr effaith bosibl ar iechyd y cyhoedd.

At hynny, yn ystod mis Mehefin 2020, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad rhagarweiniol gydag Awdurdodau Lleol ar gynigion ar gyfer Bil Aer Glân i Gymru, gan gynnwys ar fynd i'r afael â'r arfer o segura llonydd. Roedd rhai Awdurdodau Lleol o blaid gosod cosbau uwch am segura llonydd ar sail y ffaith bod lefel bresennol y gosb yn rhy isel i wneud gorfodaeth yn werth chweil. Mynegodd rhai Awdurdodau Lleol bryder ynghylch problemau parhaus a dwys am segura llonydd am gyfnodau o amser mewn canolfannau trafndiaeth mawr mewn trefi/dinasoedd neu mewn mannau lle mae yna broblemau mawr yn arwain at gynnydd mewn llygredd aer. Un o themâu'r ymatebion i'r ymgynghoriad oedd y pryder ynghylch effaith bosibl segura llonydd y tu allan i ysgolion ar iechyd plant.

Y canlyniad a ddymunir yw i Awdurdodau Lleol gael cyfle i arfer eu disgrisiwn o ran dewis a ddylid arfer y pŵer a nodir yn y cynigion presennol ai peidio (megis y pŵer i gyflwyno cosbau uwch am segura llonydd). Gall Awdurdodau Lleol ddewis mabwysiadu'r pŵer yma o dan rai amgylchiadau. Er enghraifft, lle ceir achosion rheolaidd, dwys a pharhaus o segura llonydd. Mae'r mater hwn yn arbennig o amlwg mewn cerbydau hŷn sydd â systemau ar ôl triniaeth llai effeithiol (lle nad yw'r mygdarth disel a ollyngir gan yr injan yn cael ei lanhau cystal ag mewn cerbydau mwy modern cyn cael ei drosglwyddo drwy'r bibell i'r aer y tu allan). Efallai y bydd Awdurdodau Lleol am ganolbwyntio ar ddigwyddiadau, megis gadael injan bysiau hŷn sy'n darparu gwasanaeth cludiant i ysgolion yn segura'n llonydd y tu allan i ysgolion (yn enwedig gan fod pryder am iechyd plant yn thema gyffredin mewn perthynas ag effeithiau segura llonydd); gadael injan bysiau hŷn yn segura'n llonydd mewn canolfannau trafndiaeth canol dinas/tref (gorsafoedd bysiau); gadael injan tacsis hŷn yn segura'n llonydd (er enghraifft, y tu allan i orsafoedd trê); gadael injan ceir modur preifat hŷn yn segura'n llonydd y tu allan i ysgolion; gadael ceir modur preifat hŷn yn segura'n llonydd y tu allan i ganolfannau siopa neu groesfannau.

Rydym am ddarparu fframwaith cryfach o bwerau i Awdurdodau Lleol i fynd i'r afael â'r arfer o segura llonydd.

Newid deddfwriaethol arfaethedig

Rydym yn cynnig cynnwys y darpariaethau canlynol yn y Bil arfaethedig er mwyn:

- gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i roi sylw priodol i ganllawiau ar ddatblygu a gweithredu mesurau gofodi i fynd i'r afael â'r arfer o segura llonydd; a
- galluogi Awdurdodau Lleol i gynyddu symiau'r gosb benodedig am segura llonydd (i gynyddu'r effaith ataliol).

Byddai darparu fframwaith cryfach o bwerau i alluogi Awdurdodau Lleol i fynd i'r afael â'r arfer o segura llonydd yn cyfrannu at gyflawni cynnydd mewn perthynas â chreu lleoedd cynaliadwy gyda thrafnidiaeth fwy ecogyfeillgar i gefnogi gwell ansawdd aer a seinweddau.

Mae creu lleoedd cynaliadwy yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni'r nodau llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, megis y nod o Gymru iachach. Bydd defnyddio mesurau i atal segura llonydda a gefnogir gan fframwaith cryfach o bwerau yn cyfrannu at leihau allyriadau. Gall ansawdd aer gwael gael effaith anghymesur ar iechyd a llesiant plant, pobl hŷn a phobl eraill sy'n agored i niwed. Bydd cyfrannu at leihau llygredd aer yn cael effaith uniongyrchol a sylweddol ar wella iechyd dynoliaeth.

Gall mesurau i atal segura llonydd fod yn fwyaf effeithiol os cânt eu cynnwys mewn pecyn o fesurau gwahanol ond ategol sydd â'r diben o atal neu leihau llygredd aer. Yn y cyd-destun hwn, gall fod potensial i sicrhau gostyngiadau cronol mewn allyriadau, dros amser, ar draws ystod o fesurau gwahanol a gymhwysir ar y cyd.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

11. Ydych chi'n cytuno â'r cynigion sy'n ymwneud â mynd i'r afael â segura llonydd?
12. Yn eich barn chi, beth yw manteision/anfanteision y cynigion?
13. Allwch chi awgrymu unrhyw ddulliau ychwanegol o fynd i'r afael â segura llonydd?
14. A oes gennych chi unrhyw dystiolaeth i'w chyflwyno o'r cysylltiadau rhwng allyriadau ac amlygiad mewn perthynas â segura llonydd?

Mynd i'r afael â llygredd aer sy'n deillio o losgi domestig

Mae llosgi domestig yn derm ymbarél ar gyfer gwresogi preswyl (megis boeleri neu leoedd tân), coginio dan do ac yn yr awyr agored a llosgi gwastraff cartref a gardd.

Mae'r cynigion deddfwriaethol a ddisgrifir isod yn canolbwyntio ar losgi tanwyddau solet dan do (glo tŷ traddodiadol a phren gwlyb).

Rydym eisiau lleihau ac, yn y pen draw, dileu'r holl allyriadau o losgi domestig tanwyddau solet. Yn ôl y Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol, bu gostyngiad yn yr allyriadau o'r sector preswyl rhwng 1990 a 2002. Roedd hyn yn adlewyrchu'r dirywiad

yn y defnydd o lo at ddibenion gwresogi. Fodd bynnag, mae allyriadau o'r sector preswyl bellach wedi dychwelyd i lefelau 1990. Caiff y cynnydd hwn ei briodoli'n rhannol i'r defnydd cynyddol o bren fel tanwydd i wresogi cartrefi. Nid oes sicrwydd beth yw union gyfraniad llosgi domestig at lygredd aer cyffredinol, ond dywedir mai llosgi domestig yw'r ffynhonnell fwyaf sy'n cyfrannu at lefel PM_{2.5} y DU.

Rydym yn cydnabod efallai fod rhai pobl yn dibynnu ar danwydd solet fel eu prif ddull o wresogi eu cartrefi. Dyna pam, yn y tymor byr, rydym am weithredu mesurau i leihau allyriadau'n sylweddol heb gyflwyno gwaharddiad cyffredinol. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o aelwydydd, mae stofiau neu losgwyr coed yn ategu mathau eraill o wresogi (olew, nwy neu drydan) neu'n cael eu defnyddio at ddibenion hamddena yn unig.

Mae gan fesurau i leihau lefelau PM_{2.5} y potensial hefyd i leihau lefelau PM₁₀, gan gynnwys carbon monocsid, sylffwr deuocsid, cyfansoddion organig anweddol, bensopyren a deuocsinau eraill.

Rydym wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn 2018 (sy'n cynnwys diwydiant, cyflenwyr tanwydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Awyr Iach Cymru, Awdurdodau Lleol, HETAS a sefydliadau eraill) i archwilio'r holl dystiolaeth sydd ar gael i ddatblygu ymyriadau priodol.

Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad Papur Gwyn hwn, rydym yn ymgynghori ar sut y byddwn yn mynd i'r afael ag allyriadau sy'n deillio o losgi domestig. Bydd hyn yn cynnwys ystyried:

- gwahardd gwerthu pren gwlyb a glo tŷ/pyg traddodiadol.
- pwerau rheoleiddio er mwyn sicrhau mai'r offer mwyaf effeithlon yn unig fydd ar gael i'w prynu a'u gosod erbyn 2022. Bydd hyn yn cynnwys gosod stofiau ail law.
- pwerau rheoleiddio i'w gwneud hi'n ofynnol i offer llosgi domestig gael eu cynnal a'u cadw'n flynyddol gan weithiwr proffesiynol ardystiedig, yn amodol ar adolygiad.
- sefydlu safonau profi ar gyfer tanwyddau solet newydd a gyflwynir i'r farchnad erbyn 2024 er mwyn sicrhau y byddant yn cydymffurfio â rheoliadau priodol yn ymwneud ag allyriadau sylffwr a mwg.
- opsiynau i gefnogi aelwydydd i sicrhau na fydd unrhyw un yn mynd i dlodi tanwydd neu'n aros mewn tlodi tanwydd o ganlyniad i wahardd tanwyddau neu offer, neu o ganlyniad i ymestyn y defnydd o SCAs.

Diwygiadau i ddeddfwriaeth Rheoli Mwg

Mae Bil Aer Glân (Cymru) yn nodi cynnig i ddiwygio'r gyfundrefn ar gyfer Rheoli Mwg er mwyn ysgafnhau'r baich ar Awdurdodau Lleol wrth orfodi'r rheoliadau. Yn ogystal, rydym yn gofyn am eich barn ynghylch a ddylid mandadu'r defnydd o Rheoli Mwg mewn ardaloedd poblogaeth diffiniedig ac ymestyn y ddeddfwriaeth i gynnwys llosgi yn yr awyr agored.

O fewn Ardal Rheoli Mwg, mae'n drosedd i allyrru mwg o simnai adeilad (gan gynnwys eiddo domestig, preswyl neu ddiwydiannol) oni bai bod tanwydd wedi'i awdurdodi i'w ddefnyddio neu fod offer wedi'i eithrio i'w ddefnyddio mewn Ardal Rheoli Mwg. Mae deddfwriaeth rheoli mwg wedi'i chydgrynhoi ar hyn o bryd yn Neddf Aer Glân 1993.

Mae Rhan 3 o Ddeddf Aer Glân 1993 yn ymdrin â'r gyfraith ar Orchmynion Rheoli Mwg a'u dynodiad. Mae adran 19 yn caniatáu ar gyfer y posibilrwydd y bydd Gweinidogion Cymru yn ehangu ardaloedd Rheoli Mwg drwy gyfarwyddo ALLau i'w hehangu i'w hardal gyfan. Nod y Ddeddf yw rheoli allyriadau mwg tywyll, graean, llwch a mygdarth o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys safleoedd diwydiannol, ffwrneisi ac ati.

Ar hyn o bryd, mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth i awdurdodi defnyddio tanwyddau penodol mewn Ardal Rheoli Mwg (o dan adran 20(6) o'r Ddeddf) ac i eithrio rhai offer ar gyfer cael eu defnyddio (o dan adran 21(5)). Bydd gwneuthurwyr yn cyflwyno eu cynnyrch i'w profi gan gynghorwyr technegol sydd wedyn yn argymhell y gellir cyflwyno'r cynhyrchion i'r farchnad.

Mae darpariaeth i Gymru yn unig ym Mil Amgylchedd y DU sy'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi rhestrï ar gyfer cofnodi tanwyddau awdurdodedig a dosbarthiadau eithriedig o leoedd tân. Ar ôl ei ddeddfu, bydd pŵer Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth mewn perthynas â thanwyddau awdurdodedig a dosbarthiadau eithriedig o leoedd tân yn cael ei ddiddymu. Bydd mabwysiadu rhestrï cyhoeddedig yn sicrhau bod Cymru'n cyd-fynd â Lloegr a'r Alban.

Bydd y newid hwn o fudd i fusnesau oherwydd bydd y lwfans ansicrwydd wrth gofnodi tanwyddau ac offer yn cael ei leihau; bydd llai o oedi rhwng profi'r cynnyrch a'i gyflwyno ar y farchnad; a bydd defnyddwyr yn elwa gan y bydd mwy o gynhyrchion yn cael eu cyflwyno i'r farchnad yn gynt, gan gynyddu'r dewis.

Ar hyn o bryd, mae rheoli mwg wedi'i gyfyngu i offer sydd wedi'u gosod dan do, megis llosgwyr coed a stofiau. Ni roddir unrhyw ystyriaeth ar hyn o bryd i effaith offer sy'n llosgi tanwyddau solet yn yr awyr agored (barbeciws, ffyrnau pizza ac ati) neu effaith y tanwyddau a ddefnyddir yn yr awyr agored ar ansawdd aer.

Er bod Rhannau 1 a 2 o Ddeddf Aer Glân 1993 yn mynd i'r afael ag allyriadau mwg, graean a llwch, gan gynnwys o safleoedd diwydiannol a masnach a ffwrneisiau, nid oes unrhyw gynigion ar hyn o bryd i atgyfnerthu'r ddeddfwriaeth hon yn y Bil. Mae deddfwriaeth (caniatáu) arall sy'n bodoli eisoes yn mynd i'r afael â llosgi masnachol/diwydiannol, a byddwn yn parhau i archwilio gyda Defra a oes angen diwygiadau pellach i'r ddeddfwriaeth.

Mae deddfwriaeth niwsans statudol o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn mynd i'r afael ag achosion o fwg, mygdarthau, nwyon, llwch ac arogleuon a ollyngir o eiddo. Nid yw'r deddfwriaeth yn mynd i'r afael ag offer llosgi yn yr awyr agored yn benodol.

Pan fo awdurdod lleol yn datgan Ardal Rheoli Mwg, mae allyrru mwg o simnai yn dod yn drosedd. Fodd bynnag, mae'n anodd erlyn: mae'n gostus ac yn cymryd llawer o amser; gellir defnyddio amddiffyniadau (megis defnyddio tanwydd awdurdodedig/dosbarth eithriedig o le tân); a heb bŵer mynediad i Awdurdodau Lleol, mae gorfodi'n gallu bod yn anodd.

Gwaith presennol ar Reoli Mwg mewn perthynas â'r Bil

Rydym wedi cyhoeddi cyfres o gwestiynau i Awdurdodau Lleol yng Nghymru fel y gallant gasglu gwybodaeth a thystiolaeth mewn perthynas â'r mater hwn. Mewn ymateb, nododd Awdurdodau Lleol nad oedd gofyniad i adolygu'r angen am Orchymyn Rheoli Mwg, ac mae'r Awdurdodau Lleol hynny sydd â gorchmynion o'r fath ar waith wedi ei chael hi'n anodd eu gorfodi.

Cynigion i'w cynnwys yn y Bil

- Cynnwys deddfwriaeth Rheoli Mwg yn y Bil, gan gyfuno deddfwriaeth o Ddeddf Aer Glân 1993, Rhan 3. Hefyd, newid y gyfundrefn droseddau o gam troseddol i gam sifil.
- Mandadu'r defnydd o Orchmynion Rheoli Mwg ym mhob ardal drefol sy'n bodloni meini prawf penodol, i'w ddiffinio yn y Bil.
- Cynnwys gofyniad i Awdurdodau Lleol adolygu Ardaloedd Rheoli Mwg yn rheolaidd, o ran sefydlu neu ddiddymu Gorchymyn Rheoli Mwg.
- Dylid cynnwys llosgi yn yr awyr agored mewn Ardaloedd Rheoli Mwg, i gynnwys coelcerthi.
- Cyflwyno rhestr ar-lein o danwyddau awdurdodedig i'w defnyddio mewn offer awyr agored.

Yn ystod argyfwng COVID-19, derbyniwyd amryw o gwynion, gan Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru a Gweinidogion Cymru, ynghylch effeithiau llosgi gwastraff gardd ar iechyd. Mae'n amlwg bod problem ond, ar hyn o bryd, nid oes gan Awdurdodau Lleol unrhyw bwerau i wahardd coelcerthi. Byddai ymestyn deddfwriaeth Rheoli Mwg i losgi yn yr awyr agored yn caniatáu cynnwys coelcerthi, ac yn fodd o'u rheoli'n fwy effeithiol.

Byddai ymestyn cwmpas Rheoli Mwg, a'i gysylltu â dwysedd y boblogaeth neu feini prawf eraill, yn arf sylweddol i leihau effaith llygredd aer a gynhrychir o ganlyniad i losgi domestig.

Byddai gorfodaeth yn parhau ar ffurf gweithredu gan Awdurdodau Lleol, drwy achosion sifil. Mae hyn yn gostwng y baich prawf a bydd yn gwneud camau adferol yn symlach. Mae dull tebyg yn cael ei fabwysiadu ar gyfer Lloegr o dan Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion a Llywodraethu).

Cwestiynau'r ymgynghoriad

15. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i drosi Rhan 3 o Ddeddf Aer Glân 1993 (Rheoli Mwg) i ddeddfwriaeth Cymru?

16. A oes unrhyw agweddau eraill ar Ddeddf Aer Glân 1993 y byddech chi'n eu hystyried yn briodol i'w cynnwys yn neddfwriaeth Cymru?

17. Ydych chi'n cytuno y bydd newid y drefn orfodi o gamau troseddol i gamau sifil yn helpu i wella gorfodaeth?

18. A fyddech chi'n cytuno, yng ngoleuni'r dystiolaeth, y dylid rhagdybio o blaid Rheoli Mwg, mewn ardaloedd trefol o leiaf?

Grymuso gweithluoedd i fynd i'r afael â llygredd aer

Rydym yn bwriadu cynhyrchu canllawiau traws-sector i rymuso gweithluoedd ledled Cymru i fynd i'r afael â llygredd aer. Disgwylir y bydd y canllawiau hyn yn sicrhau manteision o ran ansawdd aer, iechyd a datgarboneiddio ar yr un pryd.

Drwy'r Bil, rydym yn ceisio cynhyrchu canllawiau newydd i rymuso gweithluoedd i fynd i'r afael â llygredd aer. Rydym yn ymgynghori ynghylch a ddylai canllawiau fod ar sail statudol, a fyddai'n gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i adrodd ar gynnydd (bob 6 mis) ac i fod yn atebol am eu cyfrifoldebau.

Ym mis Ebrill 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru 'Cyngor i staff GIG Cymru – Gweithio gyda'n gilydd i leihau llygredd aer awyr agored, risgiau ac anghydraddoldebau'¹⁶:

Mae'r canllawiau hyn yn ategu cyfrifoldebau sy'n bodoli eisoes o ran ansawdd aer ac yn defnyddio pedair egwyddor i ddylanwadu, cyfathrebu a hyrwyddo gwelliannau i ansawdd aer o fewn y GIG a thu hwnt:

- cynorthwyo eraill i asesu llygredd aer a rhoi blaenoriaeth briodol iddo mewn ardaloedd lleol;
- ymgysylltu â phenderfynwyr lleol lefel uchel i weithredu'n lleol mewn perthynas â llygredd aer;
- cyfathrebu â'r cyhoedd (gan gynnwys cleifion) ynghylch llygredd aer lleol; a
- hyrwyddo gwelliannau ansawdd aer y tu allan a'r tu mewn i'w sefydliadau.

Mae'r canllawiau hyn yn anstatudol, gydag ychydig iawn o'r camau gweithredu a awgrymir yn unigryw i'r GIG. Mae'r rhan fwyaf yr un mor berthnasol i gyrff cyhoeddus a phreifat eraill, yn gynnwys sefydliadau gwirfoddol.

¹⁶ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/gweithio-gydan-gilydd-i-leihau-llygredd-aer-awyr-agored-risgiau-ac-anghydraddoldebau.pdf>

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig ymestyn a chynyddu cyrhaeddiad ac effaith y canllawiau iechyd i'r eithaf fel eu bod yn berthnasol i rannau eraill o'r Sector Cyhoeddus, gan gynnwys y sectorau preifat a gwirfoddol. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig rhoi'r canllawiau uwch ar sail statudol.

Yr achos dros newid

Effaith fwriedig y cynnig yw sicrhau cymdeithas lle mae gwella ansawdd aer yn dod yn fusnes i bawb. Mae gwella ansawdd aer o fudd i bawb, o weithwyr yn y gweithle sy'n gweithio mewn gweithleoedd iachach a mwy diogel i gymunedau yn fwy eang. Gall y canllawiau rymuso gweithluoedd i fynd i'r afael â llygredd aer mewn pob math o wahanol ffyrdd.

Mae gan llygredd aer amryw o ffynonellau.

Mae llygredd aer yn effeithio ar bawb ac mae'n hanfodol gweithredu ar sail traws-sector ledled Cymru i wella ansawdd aer. Mae'n bwysig cydnabod bod angen gweithredu'n lleol ar sail Cymru gyfan. Gall data ledled Cymru guddio problemau lleol sy'n deillio o grynodiadau ardal fach sylweddol sy'n arwain at amlygiad ac effeithiau canlyniadol ar iechyd. Mae mynd i'r afael â llygredd aer yn fusnes i bawb ac mae'n hanfodol bod gweithluoedd yn cyfrannu at fynd i'r afael â llygredd aer ar sail traws-sector sy'n rhychwantu'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Yn hyn o beth, gall cyflogwyr a gweithwyr cyflogedig ddarparu arweiniad.

Newid deddfwriaethol arfaethedig

Y cynigion yw:

- cynnwys darpariaeth yn y Bil sy'n gosod y canllawiau ar sail statudol fel eu bod yn gymwys i'r sector cyhoeddus (GIG Cymru; Cyfoeth Naturiol Cymru; Awdurdodau Lleol) a'r sectorau preifat a gwirfoddol
- gosod dyletswydd statudol ar randdeiliaid o'r Sectorau Cyhoeddus a Gwirfoddol i adrodd ar gynnydd (bob 6 mis) a bod yn atebol am eu gweithredoedd/cyfrifoldebau i Lywodraeth Cymru (Gellid defnyddio gwefan Ansawdd Aer yng Nghymru fel mecanwaith adrodd ar gyfer y sectorau Cyhoeddus, Preifat a Gwirfoddol).

Nod y canllawiau fyddai hyrwyddo a gwella ymwybyddiaeth o ffynonellau llygredd aer a rhoi cyngor ar sut i fynd i'r afael â nhw. Dyma'r ffynonellau llygredd aer:

- pethau sy'n symud (ceir, injan yn segura'n llonydd, tryciau ac ati.)
- pethau sefydlog (gweithfeydd pŵer, purfeydd olew, cyfleusterau diwydiannol a ffatrioedd)
- ffynonellau ardal, megis ardaloedd amaethyddol neu leoedd tân sy'n llosgi coed. Un o brif ffynonellau llygredd aer awyr agored yw trafndiaeth ffyrdd, a gall gweithluoedd gyfrannu at symud oddi wrth ddefnyddio'r cerbyd modur preifat a mabwysiadu teithio llesol neu ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus. Mae rôl i weithluoedd hefyd o ran lleihau llygredd aer dan do (yn enwedig mewn perthynas â chemegion a lleoedd tân).

Y nod yw cysylltu gwelliant mewn ansawdd aer â datgarboneiddio drwy leihau allyriadau o amaethyddiaeth; adeiladau; diwydiant; y sector nwyon wedi'u fflworeiddio; y sector pŵer; gwastraff; a thrafnidiaeth.

Gallai cynrychiolwyr o bob sector weithio gyda chyflogwyr a gweithwyr cyflogedig i hyrwyddo newid ymddygiad yn y gweithle (er enghraifft, annog teithio llesol gyda chymhellion i'w ddefnyddio neu hyrwyddo'r defnydd o gerbydau sefydliadol glanach). Gallent ymgysylltu hefyd â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau lleol ar faterion megis creu mannau gwyrdd neu seilwaith gwyrdd; neu ddefnyddio polisi cynllunio gofodol i adeiladu adeiladau dwysedd uchel yn agos at ganolfannau trafndiaeth. Mae gan y broses o gymhwysu'r canllawiau ar sail ryng-sector y potensial i annog cydweithio ar wella ansawdd aer sy'n gysylltiedig â datgarboneiddio rhwng gwahanol sectorau.

Mae grymuso gweithluoedd i fynd i'r afael â llygredd aer sy'n gysylltiedig â datgarboneiddio yn bwydo i mewn i'r nodau llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, megis Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang (sy'n cyfrannu at lesiant byd-eang drwy warchod yr amgylchedd); Cymru iachach (lle mae iechyd pobl yn cael ei gynyddu i'r eithaf a phobl yn cael cyfle i wneud dewisiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol); a Chymru ffyniannus (lle mae gwell iechyd yn lleihau costau cymdeithasol ac yn fanteisiol i'r economi yn sgil gwell cynhyrchiant ymhlith y boblogaeth sy'n gweithio).

Yn y ffyrdd hyn, mae'r canllawiau'n gysylltiedig â mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a hyrwyddo ein hadferiad gwyrdd.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

19. Ydych chi'n cytuno â'r cynigion?
20. Beth yw manteision/anfanteision y cynigion?
21. Ym mha ffyrdd eraill y gellid darparu'r canllawiau, neu gan bwy? Rhowch fanylion.
22. Beth fyddai'r ffordd orau i randdeiliaid adrodd ar gynnydd i Lywodraeth Cymru?
23. A oes gennych chi unrhyw bwyntiau ychwanegol i'w gwneud?

Atodiad 1 - Amserlen y ddeddfwriaeth

Dyma'r amserlenni bras ar gyfer cyflawni'r Bil Aer Glân, y Ddeddf a'r rheoliad. Efallai y bydd y dyddiadau hyn yn newid.

<u>Disgrifiad</u>	<u>Dyddiadau disgwylidig</u>
<u>Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn</u>	<u>Ionawr – Mawrth 2021</u>
<u>Dadansoddiad o'r Ymgynghoriad</u>	<u>Ebrill - Mai 2021</u>
<u>Casglu tystiolaeth</u>	<u>Mehefin – Rhagfyr 2021</u>
<u>Cychwyn drafftio'r Bil</u>	<u>Ebrill 2022</u>
<u>Gosod y Bil</u>	<u>I'w gadarnhau</u>
<u>Cael cydsyniad brenhinol ar gyfer y Bil</u>	<u>I'w gadarnhau</u>
<u>Gosod y rheoliad</u>	<u>Heb fod yn hwyrach na 24 mis ar ôl y Bil</u>

Atodiad 2 - Cwestiynau'r ymgynghoriad

1. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i greu gofyniad yn y Bil i Gynllun neu Strategaeth Aer Glân i Gymru gael ei adolygu a'i gyhoeddi bob 5 mlynedd o leiaf? Os nad ydych chi, rhowch fanylion
2. Ydych chi'n cytuno â'r amserlenni arfaethedig ar gyfer adolygu'r Cynllun neu'r Strategaeth Aer Glân? Os nad ydych chi, rhowch fanylion.
3. Ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno fframwaith i osod targedau ansawdd aer newydd?
4. Ydych chi'n cytuno â'r fframwaith arfaethedig ar gyfer pennu targedau ansawdd aer? Os nad ydych chi, rhowch dystiolaeth i gefnogi eich ateb, os yw ar gael
5. Ydych chi'n cytuno bod angen egluro a chryfhau deddfwriaeth? Os felly, ydych chi'n cytuno â'r dull a amlinellwyd?
6. Ydych chi'n meddwl y bydd dyddiad cydymffurfio y cytunir arno gan y naill barti a'r llall fesul achos yn helpu i gyflawni gwelliannau ansawdd aer mewn AQMAs, cyn gynted ag y bo modd? Rhowch fanylion.
7. Sut y gallwn sicrhau bod y cysyniad 'partneriaid' yn gwella ac yn cefnogi cydweithio i wella ansawdd aer?
8. A fydd y cynigion hyn gyda'i gilydd yn helpu i ddarparu cyfundrefn LAQM fwy rhagweithiol ac sy'n canolbwyntio mwy ar atal?
9. Ydych chi'n meddwl y byddai'r cynigion yn cefnogi cyflwyno Parthau Aer Glân / Parthau Allyriadau Isel yng Nghymru yn effeithlon ac yn effeithiol?
10. Ydych chi'n credu y dylai referniw a godir drwy daliadau cefnfyrd d fod ar gael at ddibenion heblaw am gefnogi polisïau trafnidiaeth lleol (nodwch)?
11. Ydych chi'n cytuno â'r cynigion sy'n ymwneud â mynd i'r afael â segura llonydd?
12. Yn eich barn chi, beth yw manteision/anfanteision y cynigion?
13. Allwch chi awgrymu unrhyw ddulliau ychwanegol o fynd i'r afael â segura llonydd?
14. A oes gennych chi unrhyw dystiolaeth i'w chyflwyno o'r cysylltiadau rhwng allyriadau ac amlygiad mewn perthynas â segura llonydd?
15. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i drosi Rhan 3 o Ddeddf Aer Glân 1993 (Rheoli Mwg) i ddeddfwriaeth Cymru?
16. A oes unrhyw agweddau eraill ar y Ddeddf Aer Glân y byddech chi'n ystyried eu bod yn briodol i'w cynnwys yn neddfwriaeth Cymru?
17. Ydych chi'n cytuno y bydd newid y drefn orfodi o gamau troseddol i gamau sifil yn helpu i wella gorfodaeth?
18. A fyddech chi'n cytuno, yng ngoleuni'r dystiolaeth, y dylid rhagdybio o blaid Rheoli Mwg, mewn ardaloedd trefol o leiaf?
19. Ydych chi'n cytuno â'r cynigion?
20. Beth yw manteision/anfanteision y cynigion?
21. Ym mha ffyrdd eraill y gellid darparu'r canllawiau, neu gan bwy? Rhowch fanylion.
22. Beth fyddai'r ffordd orau i randdeiliaid adrodd ar gynnydd i Lywodraeth Cymru?
23. A oes gennych chi unrhyw bwyntiau ychwanegol i'w gwneud?
24. Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r darpariaethau yma yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg.
25. Pa effeithiau fyddai yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

26. Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r darpariaethau arfaethedig gael eu llunio neu eu newid i gael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau gynyddol cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r iaith Saesneg.

Atodiad 3 – Llygryddion Aer

<p>Ffynonellau ac effeithiau deunydd gronynnol (PM_{2.5}, PM₁₀)</p>	
<p>Deunydd gronynnol (PM) yw'r term am gymysgedd o ronynnau solet a diferion hylif a geir yn yr aer. Gall PM gael ei allyrru'n uniongyrchol o ffynhonnell (PM sylfaenol), ond gall ffurfio yn yr atmosffer hefyd oherwydd adweithiau cemegol rhwng nwyon llygryddion (PM eilaidd).</p> <p>Dosberthir PM yn ôl maint, er enghraifft PM₁₀ (gronynnau y gellir eu mewnanadlu $\leq 10\mu\text{m}$ o ddiamedr) a PM_{2.5} (gronynnau mwy mân y gellir eu mewnanadlu $\leq 2.5\mu\text{m}$ o ddiamedr). Nid yw PM yn llygrydd sengl; gall gynnwys amrywiaeth o gemegion. Gall PM a'r nwyon sy'n ei ffurfio deithio pellteroedd mawr, gydag effeithiau'n digwydd ymhell o'r ffynhonnell wreiddiol. Mae crynodiadau PM yn bryder arbennig oherwydd cysylltiadau sefydledig ag effeithiau ar iechyd, er nad yw'r mecanweithiau na pha mor wenwynig yw gwahanol elfennau'r deunydd gronynnol yn gwbl ddealladwy eto.</p>	
<p>Mae ffynonellau'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llosgi domestig • Trafnidiaeth ffyrdd (allyriadau egsôst a thraul teiars a brecio) • Gorsafoedd pŵer • Prosesau diwydiannol • Ffynonellau naturiol, gan gynnwys llwch a chwythir gan y gwynt, halen môr, peilliau a gronynnau pridd. <p>Mae PM eilaidd yn cael ei ffurfio o nwyon rhagflaenol megis ocsidau nitrogen, amonia (gan gynnwys o allyriadau amaethyddol) a sylffwr deuocsid.</p>	<p>Effeithiau ar iechyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gall gronynnau mân deithio'n ddwfn i'r ysgyfaint • Cysylltiadau ag ystod o effeithiau, gan gynnwys salwch anadlol a chardiofasgwlaidd a marwolaethau • Nid oes unrhyw drothwy wedi'i nodi lle na cheir effeithiau andwyol ar iechyd o dan y trothwy hwnnw. <p>Effeithiau ar yr amgylchedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae allyriadau carbon du (huddygl) o hylosgiad anghyflawn yn gysylltiedig ag effeithiau ar y newid yn yr hinsawdd.
<p>Ffynonellau ac effeithiau ocsidau nitrogen (NO_x)</p>	
<p>Mae Ocsidau Nitrogen (NO_x) yn cynnwys ocsid nitrig (NO) a nitrogen deuocsid (NO₂). Mae'n llygrydd rhagflaenol ar gyfer O₃ ar lefel y ddaear. Mae allyriadau NO_x yn gymysgedd o NO ac NO₂; ond mae cemeg yn yr atmosffer yn cynyddu'r gyfran fel NO₂.</p>	
<p>Mae ffynonellau'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hylosgi e.e. ffynonellau yn cynnwys cynhyrchu pŵer, hylosgi diwydiannol a thrafnidiaeth ffyrdd • Trafnidiaeth yw ffynhonnell fwyaf NO_x yng Nghymru erbyn hyn, yn bennaf oherwydd allyriadau o drafnidiaeth ffyrdd, sy'n cyfrif am tua thraean o'r allyriadau. 	<p>Effeithiau ar iechyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gall dod i gysylltiad ag NO₂ dros gyfnod tymor byr achosi llid ar y llwybrau anadlu • Gall NO₂ gynyddu'r tueddiad i heintiau anadlol ac alergenau hefyd • Mae'n anodd nodi effeithiau iechyd uniongyrchol NO₂ oherwydd ei fod yn cael ei allyrru o'r un ffynonellau â llygryddion eraill megis deunydd gronynnol (PM). Mae dod i gysylltiad ag NO₂ dros gyfnod hirdymor yn gysylltiedig â marwolaeth ac afiachedd. <p>Effeithiau ar yr amgylchedd:</p>

	<ul style="list-style-type: none"> • Mae allyriadau carbon du (huddygl) o hylosgiad anghyflawn yn gysylltiedig ag effeithiau ar y newid yn yr hinsawdd.
Ffynonellau ac effeithiau osôn ar lefel y ddaear (O₃)	
<p>Nid yw osôn ar lefel y ddaear (O₃) yn cael ei allyrru'n uniongyrchol. Mae'n llygrydd eilaidd sy'n cael ei ffurfio gan adweithiau cemegol yn yr atmosffer. Mae'r crynodiadau ar eu huchaf yn yr haf. Gall O₃ deithio pellteroedd hir a chyrraedd crynodiadau uchel ymhell i ffwrdd o ffynhonnell wreiddiol y llygryddion gwreiddiol.</p> <p>Mae O₃ i'w gael yn y troposffer, o'i gyferbynnu â'r osôn stratosfferig a geir yn uchel yn yr atmosffer, sy'n amddiffyn y Ddaear rhag ymbelydredd yr haul.</p>	
<p>Mae ffynonellau'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Effaith golau'r haul ar NO_x a chyfansoddion organig anweddol (VOCs). 	<p>Effeithiau ar iechyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llidydd anadlol • Gall lefelau uchel waethygu symptomau asthma neu sbarduno pyliau o asthma mewn pobl sy'n agored i niwed, a gall achosi anghysur yn y frest i eraill. <p>Effeithiau ar yr amgylchedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Difrod i rywogaethau planhigion, coedwigaeth a chnydau
Ffynonellau ac effeithiau sylffwr deuocsid (SO₂), bensen (C₆H₆), cyfansoddion organig anweddol nad ydynt yn fethan (NMVOCs), nicel (Ni), bensopyren (B[a]P), sŵn	
<p>Mae sylffwr deuocsid (SO₂) yn nwy asid, sydd hefyd yn gallu cyfuno ag anwedd dŵr i ffurfio glaw asid.</p>	
<p>Mae ffynonellau'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynhyrchu pŵer • Purfeydd • Prosesau diwydiannol • Defnydd masnachol a phreswyl o danwydd solet a hylifol. 	<p>Effeithiau ar iechyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'n gysylltiedig ag asthma a bronchitis cronig⁵. <p>Effeithiau ar yr amgylchedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'n difrodi rhywogaethau planhigion ar grynodiadau uchel • Asideiddio cynefinoedd, gan arwain at golli bioamrywiaeth.
Metelau trwm	
<p>Mae metelau trwm yn cynnwys Nicel (Ni), sy'n elfen fetelig wenwynig.</p>	
<p>Mae ffynonellau'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Prosesau metel diwydiannol e.e. puro a phlatio • Hylosgi olew tanwydd trwm. 	<p>Effeithiau ar iechyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llid yn y trwyn a'r sinysau ac adweithiau alergaidd • Gall amlygiad hirdymor arwain at glefydau anadlol a chanserau⁶.

Bensopyren	
Mae bensopyren (BP) yn cael ei ddefnyddio fel 'nod' ar gyfer grŵp o gyfansoddion o'r enw hydrocarbonau aromatig polysyclig (PAHs). Mae PAHs yn grŵp o gemegion sy'n cronni yn yr amgylchedd ac mewn pobl ac anifeiliaid. Hefyd, cânt effeithiau gwenwynig a charsinogenig.	
Mae ffynonellau'n cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Prosesau diwydiannol • Llosgi domestig. 	Effeithiau ar iechyd: <ul style="list-style-type: none"> • Effeithiau gwenwynig a charsinogenig, gan gynnwys canser yr ysgyfaint • Gall cemegion cronedig gael eu trosglwyddo i fyny'r gadwyn fwyd.
Amonia	
Nwy di-liw ag arogl cryf yw amonia (NH3). Gall hefyd ffurfio PM eilaidd drwy adweithiau yn yr atmosffer, gan deithio pellteroedd mawr a dyddodi ar dir a chynyddu lefelau cefndir.	
Mae ffynonellau'n cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Amaethyddiaeth. Er enghraifft, magu da byw yn ddwys, storio a thaenu tail, slyri a gwrteithiau • Y sector gwastraff. 	Effeithiau ar iechyd: <ul style="list-style-type: none"> • Mae cynnydd yn lefelau deunydd gronynnol yn gysylltiedig ag amryw o effeithiau, gan gynnwys salwch anadlol a chardiofasgwlaidd. Effeithiau ar yr amgylchedd: <ul style="list-style-type: none"> • Gall cynefinoedd sy'n sensitif i nitrogen gael lefelau uwch o ddyddodiad nitrogen nag y gallant eu goddef oherwydd asideiddio ac ewtroffigedd, gan achosi newidiadau mewn bioamrywiaeth.
Cyfansoddion organig anweddol nad ydynt yn fethan	
Mae cyfansoddion organig anweddol nad ydynt yn fethan (NMVOCs) yn grŵp mawr o gyfansoddion cemegol organig, ac eithrio methan.	
Mae ffynonellau'n cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Prosesau toddyddion, yn bennaf o ddefnydd domestig • Amaethyddiaeth • Prosesau hylosgi yn y sectorau preswyl, masnachol a chyhoeddus • Colledion anweddol sy'n ffoi • Ffynonellau dan do, gan gynnwys clustogwaith, carpedi, erosolau a chynhyrchion glanhau 	Effeithiau ar iechyd: <ul style="list-style-type: none"> • Mae rhai yn cael effeithiau gwenwynig uniongyrchol; mae fformaldehyd, er enghraifft, yn achosi canser • Gallant waethygu salwch anadlol a chardiofasgwlaidd • Cyfraniad anuniongyrchol at ffurfio osôn ar lefel y ddaear, sy'n achosi problemau anadlol a chardiofasgwlaidd
Carbon monocsid (CO)	
Mae carbon monocsid (CO) yn nwy a ffurfir o ganlyniad i hylosgi anghyflawn, lle nad oes digon o ocsigen i droi tanwyddau carbon yn garbon deuocsid (CO2) a dŵr.	
Mae ffynonellau'n cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Hylosgi diwydiannol • Prosesau diwydiannol • Llosgi domestig 	Effeithiau ar iechyd ⁸ : <ul style="list-style-type: none"> • Cael ei amsugno i mewn i'r ysgyfaint, gan leihau capasiti'r gwaed i gario ocsigen

• Trafnidiaeth ffordd.

- Gall crynodiadau isel achosi blinder, anawsterau anadlu a phoen yn y stumog
- Gall crynodiadau uchel, sy'n bosibl dan do neu mewn amgylcheddau caeedig, achosi pendro, dryswch ac anymwybyddiaeth (er enghraifft, oherwydd awyru gwael)
- Mae crynodiadau uchel o CO yn llai tebygol o ddigwydd yn yr awyr agored. Fodd bynnag, pan fydd lefelau CO yn codi, gallant fod yn destun pryder i bobl sydd â rhai mathau o glefyd y galon.
- Gall crynodiadau uchel iawn fod yn angheuol.

Effeithiau ar yr amgylchedd:

- Mae'n gallu adweithio â llygryddion eraill i ffurfio O₃ ar lefel y ddaear, llygredd sŵn a seinwedd

Atodiad 4 - Geirfa

APR	Adroddiadau Cynnydd Blynyddol
AQAP	Cynlluniau Gweithredu Ansawdd Aer
CAZ	Parthau Aer Glân
UE	Yr Undeb Ewropeaidd
GDPR	Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data
LAQM	Cyfundrefn Rheoli Ansawdd Aer Leol
LEZ	Parthau Allyriadau Isel
NAEI	Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol
NECD	Cyfarwyddeb Terfynau Allyriadau Cenedlaethol
NO ₂	Nitrogen Deuocsid
PM ₁₀	Gronynnau â diamedr o 10 microfetr neu lai
PM _{2.5}	Deunydd Gronynnol Mân
PSB	Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
PWMC	Crynodeiad cymedrig wedi'i bwysoli ar sail y boblogaeth
Y Ddeddf	Ddeddf Aer Glân (Cymru)
Y Bil	Bil Aer Glân (Cymru)
Y Cynllun	Y Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach
Papur Gwyn	Papur Gwyn Aer Glân
WHO	Sefydliad Iechyd y Byd

Atodiad 5 – Deddfwriaeth a chanllawiau ansawdd aer

Mae gwelliannau cenedlaethol i ansawdd aer wedi'u llywio gan Gyfarwyddbau Ewropeaidd, gan gynnwys y rhai sy'n gosod cyfyngiadau ar grynodiadau yn yr amgylchedd, gostyngiadau mewn allyriadau llygryddion yn y DU a chrynodiadau o lygryddion o ffynonellau penodol, megis ceir a diwydiant. O dan ddeddfwriaeth genedlaethol ar wahân, a oedd yn rhagflaenu'r Gyfarwyddbau, mae Awdurdodau Lleol yn mynd i'r afael â materion ansawdd aer ar raddfa leol drwy'r broses LAQM. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn cyhoeddi canllawiau, sydd fel arfer yn gosod targedau caeth ar gyfer llygryddion, gan ddiogelu effeithiau andwyol ar iechyd. Fodd bynnag, mae cyngor gan Sefydliad Iechyd y Byd yn gwbl seiliedig ar gasgliadau gwyddonol am agweddau iechyd y cyhoedd ar lygredd aer; nid ydynt yn ystyried dichonoldeb technegol na'r agweddau economaidd, gwleidyddol a chymdeithasol ar gyflawni'r lefelau hyn.

Deddfwriaeth bresennol ar ansawdd aer

Mae gwelliannau cenedlaethol wedi'u llywio gan Gyfarwyddbau Ewropeaidd, gan gynnwys y rhai sy'n pennu terfynau:

- a. *Cyfarwyddbau Ansawdd Aer yr Amgylchedd (2008/50/EC a 2004/107/EC), sy'n gosod gwerthoedd terfyn ar gyfer crynodiad llygryddion y mae'n rhaid eu bodloni ym mhobman erbyn dyddiadau penodol (a drosir gan Reoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010);*
- b. y Gyfarwydeb Terfynau Allyriadau Cenedlaethol (2016/2284/EU), sy'n mynd i'r afael â llygredd aer trawsffiniol drwy bennu cyfansymiau allyriadau cenedlaethol ar gyfer pob Aelod-wladwriaeth er mwyn i lygryddion allweddol gael eu bodloni erbyn 2020 a 2030 (a drosir i gyfraith y DU gan Reoliadau Terfynau Allyriadau Cenedlaethol 2018); a
- c. deddfwriaeth sy'n rheoli allyriadau o ffynonellau penodol megis allyriadau diwydiannol (drwy'r Gyfarwydeb Allyriadau Diwydiannol) a safonau allyriadau ar gyfer cerbydau a pheiriannau ffordd ac oddi ar y ffordd.

Ochr yn ochr â gosod terfynau ar grynodiadau, mae gan Gyfarwydeb 2008/50/EC darged hefyd i leihau lefelau PM_{2.5} cyfartalog rhwng 2010 a 2020 o 15%.

O dan ddeddfwriaeth genedlaethol ar wahân a ragflaenodd y Gyfarwyddbau, mae awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â materion ansawdd aer ar raddfa leol drwy'r broses Rheoli Ansawdd Aer Lleol. Mae Rhan IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 yn pennu darpariaethau ar gyfer diogelu ansawdd aer yn y DU ac ar gyfer LAQM. Darperir y sail statudol ar gyfer yr amcanion ansawdd aer cenedlaethol (targedau crynodiad yn yr amgylchedd) y mae Awdurdodau Lleol yn gweithio tuag atynt o dan LAQM gan Reoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygio) 2002. Mae rheoliadau cyfatebol ledled y DU.

Mae Deddf Aer Glân 1993 yn rhoi pwerau i Awdurdodau Lleol a Gweinidogion Cymru gyfyngu ar allyriadau mwg a llygryddion eraill o eiddo diwydiannol a domestig, ac mae'n rhoi pwerau penodol ar greu Ardaloedd Rheoli Mwg. Ar hyn o bryd, nid yw'r ddeddfwriaeth yn cyfeirio'n benodol at ddeunydd gronynnol mân.

Mae deddfwriaeth, polisiau, strategaethau a chanllawiau presennol yn creu'r cyd-destun ar gyfer nodi cyfleoedd i gynyddu cwrpas a chyflymder ymyrraeth fuddiol, i flaenoriaethu'r problemau i fynd i'r afael â nhw a phennu ein rolau personol, teuluol, cymunedol a chyfunol wrth ymateb iddynt.

Mae'r cynllun hwn yn integreiddio gyda pholisïau eraill Llywodraeth Cymru ac yn eu hategu. Yn eu plith mae cynlluniau ar gyfer cynllunio, datgarboneiddio, rheoli sŵn a seinwedd, yr amgylchedd, seilwaith, defnydd tir, trafnidiaeth a'r môr a physgodfeydd.

Cyfeiriwyd at nifer o'r polisiau hyn yn y ddogfen hon.

Mae'r cynllun hwn hefyd yn nodi mesurau a chamau gweithredu ychwanegol i wella ansawdd aer a, lle y bo'n bosibl, sicrhau canlyniadau buddiol lluosog. Rydym wedi sicrhau bod ein dull yn gyson â safbwyntiau polisi presennol neu'r rhai sy'n cael eu datblygu.

Deddfwriaeth sylfaenol	
Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013	
Deddf Aer Glân 1993	Deddf yr Amgylchedd 1995
Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016	Deddf Cynllunio (Cymru) 2015
Deddf Atal a Rheoli Llygredd 1999	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Is-ddeddfwriaeth	
Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010	
Deddfwriaeth Ewropeaidd	
4ydd Epil Gyfarwydeb Ansawdd Aer 2005/107/EC	Cyfarwydeb Ansawdd Aer yr Amgylchedd 2008/50/EC
Cyfarwydeb Cynefinoedd 922/43/EEC	Cyfarwydeb Allyriadau Diwydiannol 2010/75/EU
Cyfarwydeb Nitradau (91/676/EEC)	Cyfarwydeb Tirlenwi 2018/850/EU
Cyfarwydeb terfynau Allyriadau Cenedlaethol 2016/2284/UE	Cyfarwydeb Fframwaith Gwastraff 2008/98/EC
Polisiau a Strategaethau	
Cynllun atodol Cymru i 'Gynllun y DU ar gyfer mynd i'r afael â chrynodiadau nitrogen deuocsid ar ymylon ffyrdd 2017': Mynd i'r afael â	Cynllun Ffermio Cynaliadwy

chrynnodiadau nitrogen deuocsid ar ymylon ffyrdd yng Nghymru	
Hawliau Plant yng Nghymru	Aer Glân i Bort Talbot: Cynllun Gweithredu Tymor Byr 2012
Creu Cymru Egnïol	Cwricwlwm i Gymru 2022
Cynllun Twf Economaidd	Strategaeth Effeithlonrwydd Ynni
Ynni Cymru: Newid Carbon Isel	Strategaeth Fwyd Cymru 2010 i 2020
Pwysau Iach, Cymru Iach	Cynllun Ymaddasu ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd

Atodiad 6 - Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Ffurflen Ymateb i'r

Eich enw:

Ymgynghoriad

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

e-bost/rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

1. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i greu gofyniad yn y Bil i Gynllun neu Strategaeth Aer Glân i Gymru gael ei adolygu a'i gyhoeddi bob 5 mlynedd o leiaf? Os nad ydych chi, rhowch fanylion
2. Ydych chi'n cytuno â'r amserlenni arfaethedig ar gyfer adolygu'r Cynllun neu'r Strategaeth Aer Glân? Os nad ydych chi, rhowch fanylion.
3. Ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno fframwaith i osod targedau ansawdd aer newydd?
4. Ydych chi'n cytuno â'r fframwaith arfaethedig ar gyfer pennu targedau ansawdd aer? Os nad ydych chi, rhowch dystiolaeth i gefnogi eich ateb, os yw ar gael
5. Ydych chi'n cytuno bod angen egluro a chryfhau deddfwriaeth? Os felly, ydych chi'n cytuno â'r dull a amlinellwyd?
6. Ydych chi'n meddwl y bydd dyddiad cydymffurfio y cytunir arno gan y naill barti a'r llall fesul achos yn helpu i gyflawni gwelliannau ansawdd aer mewn AQMAs, cyn gynted ag y bo modd? Rhowch fanylion.
7. Sut y gallwn sicrhau bod y cysyniad 'partneriaid' yn gwella ac yn cefnogi cydweithio i wella ansawdd aer?
8. A fydd y cynigion hyn gyda'i gilydd yn helpu i ddarparu cyfundrefn LAQM fwy rhagweithiol ac sy'n canolbwyntio mwy ar atal?
9. Ydych chi'n meddwl y byddai'r cynigion yn cefnogi cyflwyno Parthau Aer Glân / Parthau Allyriadau Isel yng Nghymru yn effeithlon ac yn effeithiol?
10. Ydych chi'n credu y dylai reffeniw a godir drwy daliadau cefnffyrdd fod ar gael at ddibenion heblaw am gefnogi polisïau trafndiaeth lleol (nodwch)?
11. Ydych chi'n cytuno â'r cynigion sy'n ymwneud â mynd i'r afael â segura llonydd?
12. Yn eich barn chi, beth yw manteision/anfanteision y cynigion?
13. Allwch chi awgrymu unrhyw ddulliau ychwanegol o fynd i'r afael â segura llonydd?
14. A oes gennych chi unrhyw dystiolaeth i'w chyflwyno o'r cysylltiadau rhwng allyriadau ac amlygiad mewn perthynas â segura llonydd?
15. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i drosi Rhan 3 o Ddeddf Aer Glân 1993 (Rheoli Mwg) i ddeddfwriaeth Cymru?
16. A oes unrhyw agweddau eraill ar y Ddeddf Aer Glân y byddech chi'n ystyried eu bod yn briodol i'w cynnwys yn neddfwriaeth Cymru?
17. Ydych chi'n cytuno y bydd newid y drefn orfodi o gamau troseddol i gamau sifil yn helpu i wella gorfodaeth?

18. A fydddech chi'n cytuno, yng ngoleuni'r dystiolaeth, y dylid rhagdybio o blaid Rheoli Mwg, mewn ardaloedd trefol o leiaf?
19. Ydych chi'n cytuno â'r cynigion?
20. Beth yw manteision/anfanteision y cynigion?
21. Ym mha ffyrdd eraill y gellid darparu'r canllawiau, neu gan bwy? Rhowch fanylion.
22. Beth fyddai'r ffordd orau i randdeiliaid adrodd ar gynnydd i Lywodraeth Cymru?
23. A oes gennych chi unrhyw bwyntiau ychwanegol i'w gwneud?
24. Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r darpariaethau yma yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg.
25. Pa effeithiau fyddai yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?
26. Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r darpariaethau arfaethedig gael eu llunio neu eu newid i gael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau gynyddol cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r iaith Saesneg.

Mae ymatebion i'r ymgynghoriad yn debygol o fod yn gyhoeddus, nail ar y we neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma: